

CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI

CRONFA GOFFA'R DREFTADAETH GENEDLAETHOL

CYFRIFON DOSBARTHIAID Y LOTERI
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
31 MAWRTH 2005

Adroddiad Blynnyddol

Paratowyd hwn yn unol ag adran 34(3) Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cyfrifon Blynnyddol

Paratowyd y rhain yn unol ag adran 35(5) Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyflwynir hwy gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

I'W ARGRAFFU 18 GORFFENNAF 2005 DAN ORCHYMYN TY'R CYFFREDIN
DYGWYD GERBRON SENEDD YR ALBAN GAN WEINIDOGION YR ALBAN 19 GORFFENNAF 2005

Cronfa Dreftadaeth y Loteri



C Y F R I F O N B L Y N Y D D O L

I'W ARGRAFFU 18 GORFFENNAF 2005 DAN ORCHYMYN TY'R CYFFREDIN
DYGWYD GERBRON SENEDD YR ALBAN GAN WEINIDOGION YR ALBAN 19 GORFFENNAF 2005

Rhagair**Gwybodaeth gefndir**

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (NHMF) wedi'i hymddiried mewn corfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, a hwy sy'n ei gweinyddu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys Cadeirydd a 14 aelod arall ar y mwyaf y mae'r Prif Weinidog yn eu penodi. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Dreftadaeth Genedlaethol 1980 ("Deddf 1980") i olynu'r Gronfa Dir Genedlaethol i goffáu'r rheiny a roddodd eu bywydau dros y Deyrnas Unedig. Estynnwyd grymoedd yr Ymddiriedolwyr a'u cyfrifoldebau gan ddarpariaethau Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ("Deddf 1993"), Deddf Dreftadaeth Genedlaethol 1997 ("Deddf 1997") a Deddf Loteri Genedlaethol 1998 ("Deddf 1998").

Dan Ddeddf 1993, daeth Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o dderbyniadau'r Gronfa Genedlaethol a ddyrennir i'r dreftadaeth. Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfrifon ar wahân ar dderbyniadau a dyraniadau grant-mewn-cymorth ac ar eu gweithrediad fel dosbarthwr cronfeydd y Loteri Genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cronfeydd fel Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn achos symiau a ddyrennir dan ddarpariaethau Deddf 1980 a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn achos derbyniadau o Ddeddf 1993.

Dan adran 21(1) o Ddeddf 1993 cynhelir cronfa o'r enw Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ("NLDF") dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Telir pob swm a dderbynnir oddi wrth ddeiliad trwydded y Loteri Genedlaethol dan adran 5(6) i'r Ysgrifennydd Gwladol, a bydd hi yn ei roi yn yr NLDF. Bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gwneud cais i'r NLDF am gronfeydd i dalu grantiau a threuliau gweinyddiaeth.

Dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i'r NLDF ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu wariant sy'n gysylltiedig â hyn. Mae adran 23(3) yn sefydlu Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ddosbarthwyr y gyfran honno. Yna, cwtogwyd ar ganran y dyraniad i 16 2/3% fis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (sef Cronfa'r Loteri Fawr bellach).

Dan adran 3 Deddf 1980, gall Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddyfarnu grantiau a benthyciadau allan o'r Gronfa at ddiben caffael, cynnal neu gadw:

- (a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;
- (b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;
- (c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, a hwnnw'n gasgliad neu'n grŵp sydd, fel cyfanwaith, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol.

Mae adran 4 Deddf 1993 yn estyn grymoedd yr Ymddiriedolwyr i arddangos yn well eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy ddarparu cymorth ariannol i adeiladu, trosi neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau wedi'u cynllunio i hybu mwynhad y cyhoedd neu i hyrwyddo gwybodaeth y cyhoedd.

Dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo prosiectau wedi'u cyfeirio i gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac i ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Yn dilyn ymgynghori â darpar ymgeiswyr, cynghorwyr, a chyrrff eraill, sefydlwyd mentrau newydd sy'n delio â grantiau referniw (i sicrhau bod y dreftadaeth o fewn cyrraedd haws yn gyffredinol), a hefyd grantiau ym meysydd archeoleg, trefluniau, technoleg gwybodaeth ac addysg. Rhoddodd Deddf 1998 rym i'r Ymddiriedolwyr ddirprwyo penderfyniadau ar grantiau'r Loteri i staff ac hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau annibynnol.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar ffurf sy'n bodloni cyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

Adolygiad o'r gweithredu

Ers i'r Loteri ddechrau, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF) wedi dyfarnu grantiau ar gyfer bron i 18,400 o brosiectau. Roedd mwy na 14,600 ohonynt wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2005. Rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005, derbyniwyd mwy na 2,900 o geisiadau am grant. Mae hyn yn dangos bod ein gwaith i annog a hwyluso mwy o geisiadau wedi bod yn llwyddiannus, ac mae'n foddhaus bod llawer o'r geisiadau wedi dod oddi wrth sefydliadau llai.

Parhawyd â'r gwaith ar fonitro prosiectau tra bo grant yn cael ei dalu, a hynny ar lefel uchel. Dros y flwyddyn, roedd 3,750 o brosiectau byw ar gyfartaledd yn cael eu monitro (cynnydd o fwy na 7% ar y llynedd). Yn ystod 2004/5, gwnaethom hefyd barhau â gwaith ar adolygu i ba raddau roedd prosiectau oedd wedi'u cwblhau, ac a oedd wedi derbyn eu holl grant, yn parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau cytundebol oedd ynghlwm â'u dyfarniadau. Gwnaed gwaith pellach hefyd ar y fframwaith ar gyfer gwerthuso prosiectau a rhai o'n rhaglenni, a fydd yn arwain at fireinio ein modd o gasglu gwybodaeth am effaith ein grantiau.

Adolygiad ariannol

Yn ystod 2004/5, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr ymrwymadau meddal newydd gwerth cyfanswm o £357.6 miliwn (diffinnir ymrwymadau meddal a chaled yn nodyn 1 y cyfrifon). Roedd hyn £16 miliwn yn fwy na'r llynedd. £266 miliwn oedd yr incwm am y flwyddyn, gan gynnwys £40 miliwn mewn incwm buddsoddi roedd Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ("NLDF") wedi'i ennill ar ein rhan. £43.6 miliwn oedd yr incwm buddsoddi roedd NLDF wedi'i ennill mewn gwirionedd, ond oherwydd newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad, £40.2 miliwn oedd y ffigur net.

Mae ymrwymo dyfarniadau sy'n werth mwy na'r incwm yn un o'r dulliau y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl ei ddefnyddio i leihau'r balans yn yr NLDF. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd HLF wedi clustnodi £313 miliwn yn fwy nag oedd ganddi yn yr NLDF, llawer yn fwy nag incwm un flwyddyn.

Llwyddiannau cam un dan y broses dau gam oedd dwy ran o dair o'r ymrwymiad (£238.7 miliwn). Roedd y gweddill (£118.9 miliwn) ar gyfer dyfarniadau grantiau yn ystod y flwyddyn. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd contractau wedi'u llofnodi ar gyfer grantiau gwerth £366.4 miliwn – h.y. ymrwymadau caled newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ymrwymadau meddal a wnaed a hefyd ymrwymadau meddal blynyddoedd blaenorol oedd wedi'u trosi yn ymrwymadau caled yn 2004/5. Bydd ymrwymadau meddal yn cael eu trosi yn ymrwymadau caled pan fydd yna gontract wedi'i lofnodi gyda derbynnydd y grant.

£m	Llwyddiant cam un	Cymeradwyaeth mewn egwyddor	Dyfarniadau grant	Ymrwymadau caled	Cyfanswm penderfyniadau
Ar 1 Ebrill 2004	306.1	22.2	174.9	660.4	
Penderfyniadau'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn	238.7	–	118.9	–	357.6
Wedi'u trosi yn ystod y flwyddyn	(158.8)	(20.1)	178.9	–	
Wedi'u trosi yn ystod y flwyddyn	–	–	(336.4)	336.4	
Tynnu ymrwymadau yn ôl	(9.1)	(2.0)	(2.2)	(9.1)	
Taliadau grant	–	–	–	(284.8)	
Ar 31 Mawrth 2005	376.9	0.1	104.1	732.9	

Penodi Archwilwyr

Mae yna ddarpariaeth yn Neddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 sy'n golygu mai'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fydd yn archwilio cyfrifon blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn estyn hyn i weithgareddau loteri'r Ymddiriedolwyr.

Ymgynghori â Gweithwyr

Oherwydd natur gweithrediadau'r Gronfa, bydd staff prosesu ceisiadau am grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Bydd staff yn ymhél â gwerthuso prosiectau ac ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Bydd llawer o aelodau o'r staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr; ac mae hyn yn eu galluogi i fod yn ymwybodol o'r meddylfryd ynglŷn â datblygu'r Gronfa a'i gweithrediadau. Ar ben hyn, bydd yr uwch reolwyr yn sicrhau bod modd trin materion o bryder i'r holl staff yn rhwydd trwy grynodebau o gyfarfodydd y Grŵp Rheoli yn y Cylchlythyr wythnosol, cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb a bod o fewn cyrraedd rhwydd iawn yn bersonol. Mae'n hanfodol fod yr holl staff yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain trwy ymgynghori a thrafod â hwy yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff yn bodoli. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, a bydd yn trafod materion o ddiddordeb i staff â chynrychiolwyr y rheolwyr. Bydd yn cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

Cyfle cyfartal

Fel cyflogwr, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ufuddhau i ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Ni fydd yn gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred crefyddol, anabledd, oed na thueddfryd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, a bod penderfyniadau ynglŷn â recriwtio, dethol, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa wedi'u seilio yn unig ar feini prawf gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r swydd dan sylw. Ni fydd yn goddef unrhyw ffurf ar wahaniaethu, aflonyddu nac erlid. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i sicrhau bod y polisi hwn yn gweithio'n effeithiol.

Credydwy'r

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ufuddhau i safon Llywodraeth-eang ar dalu biliau a Chod Ymarfer Talu Gwell y CBI, sef talu pob bil dilys cyn pen 30 niwrnod. Yn 2004/5, 12 diwrnod gwaith oedd oed yr anfonebau a dalwyd ar gyfartaledd. Talwyd mwy na 89% o anfonebau cyn pen 30 diwrnod calendr.

Ewro

Mae gweithgareddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn llwyr o fewn y Deyrnas Unedig. Er y bydd gwerth ewro i rai o'r trafodion, ni ymdrinnir â'r rhain yn wahanol i drafodion mewn unrhyw arian tramor arall. Felly, ar hyn o bryd, nid yw'r ewro yn effeithio ar systemau Cronfa Dreftadaeth y Loteri o gwbl.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr

Dan adran 34 (1) Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae gofyn i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar eu gweithgareddau dosbarthu'r loteri, ar ffurf ac ar sail y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn eu pennu, â chaniatâd y Trysorlys. Paratoyr y cyfrifon ar sail gronïadol ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar y sefyllfa sydd ohoni yn y Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, ac ar ei henillion a'i cholledion cydnabyddedig, ac ar ei hincwm a'i gwariant a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gydymffurfio â gofynion *Financial Reporting Manual* y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y manylir arnynt yn *Financial Reporting Manual* y Llywodraeth, ai peidio, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar y sail y bydd y busnes yn parhau, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, sef y Cyfarwyddwr, yn Swyddog Cyfrifyddu i'r Gronfa. Manylir ar ei chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysonder y cyllid cyhoeddus, am ddiogelu asedau'r Gronfa ac am gadw cofnodion priodol ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Government Accounting*.

MRS CAROLE SOUTER
CYFARWYDDWR

MS LIZ FORGAN
CADEIRYDD
GORFFENNAF 2005

Datganiad o reolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac ar yr un pryd diogelu cyllid cyhoeddus ac asedau yr wyf i fy hun yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi yn *Government Accounting*.

Byddaf yn gweithio'n agos ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("NHMF") sy'n rhannu cyfrifoldeb am:

- Roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Diffinio mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- Goruchwyllo rheolaeth gyffredinol gweithgareddau NHMF;
- Adrodd ar y stiwardiaeth ar gronfeydd cyhoeddus.

Cyflawnir y cyfrifoldeb hwn drwy gyfarfodydd rheolaidd yr Ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr i osod polisi ar gyfer NHMF ac i wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisi. Ar ben hyn, bydd is-bwyllgorau'r Ymddiriedolwyr; yn enwedig y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddiad a'r Pwyllgor Archwilio, yn goruchwyllo gweithgareddau'r rheolwyr ac yn eu cefnogi. Bydd diwylliant rheoli risg NHMF yn darparu gwybodaeth ar gyfer gosod pob polisi ac wrth benderfynu ar grantiau. Yn anad dim, bydd y Pwyllgor Archwilio yn trafod yn rheolaidd yr adroddiadau risg y bydd rheolwyr yn eu cynhyrchu, a bydd yn eu holi ynglŷn â'r dulliau y byddant yn eu defnyddio i leddfu risg. Yn ystod y flwyddyn, rhoddais system ar waith a oedd yn ei gwneud yn fwy eglur i ba raddau roedd rheoli risg yn rhan annatod o agwedd penderfynu y sefydliad. Hefyd, daeth NHMF yn aelod o Grŵp Rheoli Risg Fforwm y Loteri. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr dosbarthwyr y Loteri, wedi creu fframwaith risg cyffredin.

Trafodir cynllun gweithredol blynyddol NHMF – y Cynllun Busnes – â'r adran sy'n ein noddi, sef yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Byddwn hefyd yn gweithredu yn unol â Datganiad Rheolaeth a Memorandwm Ariannol ar sail templed y mae'r Trysorlys wedi'i lunio. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch swyddogion yr Adran a chyd-ddosbarthwyr y Loteri.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig, yn hytrach na sicrwydd diamheuol. Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion NHMF, i werthuso'r tebygrwydd y bydd y risgiau'n cael eu gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Gronfa am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

Galluedd i drin risg

Y Grŵp Rheoli, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o uwch reolwyr NHMF, sy'n arwain pob agwedd ar reoli risg. Bydd yn penodi perchnogion risg ac yn ei gwneud yn ddyletswydd arnynt greu a defnyddio strategaethau i leddfu'r risg dan eu rheolaeth. Bydd perchnogion risg, sef uwch aelodau'r staff yn anochel, yn cynnwys eu staff yn y prosesau nodi a monitro risg. Hefyd, byddant yn adolygu cynlluniau adrannau eraill a allai effeithio ar eu rheolaeth ar y risg.

Bydd y Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys tri Ymddiriedolwr, yn trafod yn rheolaidd y broses rheoli risg ac yn adrodd i brif gorff yr Ymddiriedolwyr ar reolaeth risg. Ar ben hyn, bydd archwiliad mewnol ac allanol yn adolygu'r prosesau rheoli risg fel rhan o'u gwaith, a gallant rannu'r budd o'u profiad o weithgareddau rheoli risg sefydliadau eraill.

Mae staff, o'r rheolwyr canol i fyny, wedi derbyn hyfforddiant mewn technegau rheoli risg oddi wrth Goleg y Gwasanaeth Sifil.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Mae'r Grŵp Rheoli wedi llunio datganiad rheoli risg sy'n manylu ar sut y bydd NHMF yn nodi, yn monitro ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd. Adolygir y datganiad hwn yn rheolaidd. Bob blwyddyn, bydd risgiau'n cael eu categoreiddio trwy ystyried y tebygrwydd y bydd y risg yn cael ei gwireddu os na roddir unrhyw weithgaredd lleddfu risg ar waith, a'r effaith petai'r risg yn cael ei gwireddu. Bydd y risgiau hynny y teimlir ei bod yn bosibl iawn y byddant yn cael effaith yn ffurfio cofrestr risgiau NHMF. Yna bydd y Grŵp Rheoli yn neilltuo'r dasg o roi gweithdrefnau ar waith i uwch reolwyr (y "perchnogion risg") er mwyn monitro a, lle bo hynny'n bosibl, lleddfu'r risg. Bydd y Grŵp Rheoli yn adolygu effeithiolrwydd eu gwaith bob chwarter. Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu gweithgareddau perchnogion risg yn rheolaidd, ac yn codi cwestiynau yn eu cylch.

Yn 2004/05, roedd NHMF o'r farn mai'r canlynol oedd y meysydd risg mwyaf arwyddocaol:

- y bydd ein hincwm yn lleihau, gan gynnwys o ganlyniad i golli enw da;
- y bydd grantiau a ddyfernir yn methu â chwrdd â'n hamcanion strategol;
- na fydd tystiolaeth, ymchwil a gwerthusiad digonol yn cefnogi ein nodau treftadaeth;

Datganiad o reolaeth fewnol (parhad)

- y byddwn yn methu â gosod a dilyn gweithdrefnau effeithlon yn gywir neu'n gyson, gan arwain at risg o dwyll neu o wneud penderfyniadau gwrthnysig a fydd yn agored i'w herio dan y gyfraith;
- y byddwn yn methu â recriwtio a chadw staff o ansawdd digonol;
- y bydd y neges yn anghyson trwy wahanol swyddfeydd y rhanbarthau a'r gwledydd;
- na fyddwn yn manteisio i'r eithaf ar y proffil, yr eiriolaeth a'r cyfleoedd â'r cyfryngau y mae presenoldeb lleol cryfach yn eu cynnig.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth i mi adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol byddaf yn defnyddio gwybodaeth a ddaw i'm rhan yn sgîl gwaith yr archwilwyr mewnol, gwaith uwch reolwyr o fewn NHMF sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill. Rwyf yn derbyn cyfarwyddyd oddi wrth y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, sy'n gweld adroddiadau oddi wrth yr archwilwyr mewnol ac allanol fel ei gilydd, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau bod system reoli fewnol yn cael ei gwella'n barhaus.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn trafod pob adroddiad yr archwilwyr mewnol gyda'r uwch aelodau o staff sy'n bresennol. Pan fydd yr archwilwyr mewnol yn nodi diffygion, bydd gofyn i benaethiaid adrannau gynllunio camau i gywiro'r sefyllfa, a gosod dyddiad cwblhau ar gyfer y camau hynny, gan ymgynghori â'r archwilwyr mewnol. Byddaf yn derbyn adroddiad rheolaidd oddi wrth yr archwilwyr yn rhoi gwybod i mi am gynnydd penaethiaid fy adrannau ar gywiro'r pwyntiau a godir gan archwilwyr mewnol ac allanol fel ei gilydd.

O ganlyniad i'r uchod, nid oes unrhyw beth rwyf yn ymwybodol ohono yn fy arwain i gredu nad yw ein systemau ar gyfer y canlynol yn ddigonol: datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, atal gwrthdaro buddiannau, atal a datgelu twyll a sicrhau cyn lleied â phosibl o golledion i grantiau-mewn-cymorth a grantiau'r Loteri.

Mrs Carole Souter

Cyfarwyddwr
Gorffennaf 2005

Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon y corff dan sylw

Rwyf yn ardstio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 7 i 18 dan Ddeddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Loteri Genedlaethol 1998). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd gan ailbrisiad rhai asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifyddu y manylir amynt ar dudalen 10.

Cyfrifoldebau priodol yr Ymddiriedolwyr, y Cyfarwyddwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifir ar dudalen 3, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon dan y ddeddf honno, fel y cytunwyd amynt gan Drysorlys EM, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair a chynnwys arall yr Adroddiad Blynnyddol. Mae statud wedi pennu fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, a byddaf i yn ystyried y safonau a'r canllawiau a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r canllawiau moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Byddaf yn adrodd fy marn i ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg a ph'un a ydynt wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dan y ddeddf honno. Byddaf hefyd yn adrodd fy marn ynglŷn â ph'un a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob agwedd o bwys, wedi'u cymhwyso at ddibenion bwriadedig y Senedd a ph'un a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Byddaf hefyd yn adrodd os, yn fy marn i, nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen amaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynnyddol, ac yn ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiledig. Byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os deuf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau o bwys yn y datganiadau ariannol.

Byddaf yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalennau 4 a 5 yn adlewyrchu cydymffurfiaid Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol â chanllawiau'r Trysorlys ar y Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Byddaf yn nodi os nad yw'n cwrdd â gofynion y mae'r Trysorlys wedi manylu amynt, neu os byddaf yn dod yn ymwybodol yn sgîl archwilio'r datganiadau ariannol bod y datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall. Nid oes gofyn i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar Reolaeth Fewnol yn cwmparu pob risg a gweithdrefn rheoli. Nid oes gofyn i mi ychwaith lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol neu ei gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Sail barn o'r archwiliad

Cynhaliats fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Bydd archwiliad yn cynnwys edrych yn fanwl, ar sail profion, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a chysonder y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesu amcangyfrifon a barn arwyddocaol yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac asesu p'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, p'un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a ph'un a ydynt wedi'u datgelu yn briodol.

Wrth gynllunio a pherfformio fy archwiliad, fy nod oedd sicrhau'r holl wybodaeth ac esboniadau roeddwn i'n eu hystyried yn angenrheidiol i ddarparu digon o dystiolaeth i mi i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i gamgymeriad neu dwyll neu afreoleidd-dra arall. Nod arall oedd sicrhau bod y gwariant a'r incwm, ym mhob agwedd o bwys, wedi'u cymhwyso at ddibenion bwriadedig y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso p'un a yw cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol yn gyffredinol ddigonol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg ar y sefyllfa sydd ohoni yn achos Ymddiriedolwyr Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2005 ac o'r gwarged/diffyg, cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ac maent wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon dan y ddeddf honno; ac
- ym mhob ystyriaeth o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at ddibenion bwriadedig y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

JOHN BOURN
RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL
GORFENNAF 2005

SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL
157-197 BUCKINGHAM PALACE ROAD
VICTORIA
LLUNDAIN SW1W 9SP

	Nodiadau	£'000	2004/5 £'000	2003/4 £'000
Derbyniadau oddi wrth y Loteri Genedlaethol	9		226,074	216,474
Incwm buddsoddi NLDF	9	43,593		41,544
Colled ar ôl ailbrisiad buddsoddiadau yn NLDF		(3,395)		(11,703)
			40,198	29,841
Llog sy'n dderbyniadwy		871	266,272	246,315
Ad-dalu grantiau	2	1,199	2,070	516
				198
Cyfanswm Incwm			268,342	247,029
Ymrwymadau caled newydd	11	(366,476)		(302,068)
Tynnu ymrwymadau caled yn ôl	11	9,069		12,119
			(357,407)	(289,949)
Costau staff	3	(9,513)		(8,962)
Dros ddarpariaeth costau pensiwn	6	0		117
Dibrisiad	7	(591)		509
Ffioedd gweithredu eraill	4	(12,626)		(13,127)
			(22,730)	(22,421)
Cyfanswm Gwariant			(380,137)	(312,370)
Gostyngiad mewn cronfeydd			(111,795)	(65,341)

Nid oes unrhyw enillion na cholledion wedi cronni i Gronfa Dreftadaeth y Loteri heblaw am y rhai a ddatgelir yn y cyfrif incwm a gwariant. Felly ni baratowyd unrhyw ddatganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig.

Mae'r holl ffigyrau a ddangosir yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 18 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

	Nodiadau	£'000	2004/5 £'000	2003/04 £'000
Asedau Sefydlog				
Asedau diriaethol sefydlog	7		1,487	1,903
Asedau cyfredol				
Buddsoddiadau – balans yn NLDF	9	900,574		942,570
Dyledwyr	8	1,433		1,647
Arian yn y banc ac mewn llaw		4,613		1,072
			906,620	945,289
Credydwyr: symiau ddaw yn daladwy cyn pen blwyddyn				
	10		(3,456)	(3,274)
Ymrwymadau grantiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn	11		(316,114)	(297,557)
Asedau cyfredol net			587,050	644,458
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd				
	6		(75)	(112)
Ymrwymadau grantiau sy'n ddyledus cyn pen mwy na blwyddyn	11		(416,819)	(362,801)
Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau			171,643	283,438
Cynrychiolir gan;				
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		283,438		348,779
Symudiad yn ystod y flwyddyn		(111,795)		(65,341)
Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen			171,643	283,438

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 18 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Mrs Carole Souter
CYFARWYDDWR

Ms Liz Forgan
CADEIRYDD
GORFFENNAF 2005

Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

	Nodiadau	2004/5 £'000	2003/4 £'000
Gweithgareddau gweithredu			
Arian a dynnwyd i lawr o NLDF	9	308,268	323,792
Arian o ffynonellau eraill		1,199	198
Arian a dalwyd i weithwyr ac ar eu rhan		(9,565)	(9,057)
Arian a dalwyd i gyflenwyr		(12,422)	(11,826)
Arian a dalwyd i dderbynyddion grantiau a benthyciadau		(284,536)	(303,652)
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu	13a	2,944	(545)
Elw ar fuddsoddi a chyllid gwasanaethu			
Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc		772	521
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	13b	(175)	(188)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian		3,541	(212)
Cysoni llif arian net i symudiad cronfeydd net			
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod		3,541	(212)
Newidiadau mewn cronfeydd net	13c	3,541	(212)
Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2004		1,072	1,284
Cronfa net ar 31 Mawrth 2005		4,613	1,072

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 18 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

10 Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005**I. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu****a) Confensiwn cyfrifyddu**

Llunnir y cyfrifon hyn ar ffurf dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sef ffurf y mae'r Trysorlys wedi'i gymeradwyo. Paratwir hwy dan y confensiwn cost hanesyddol diwygiedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r Datganiadau o Arfer Cyfrifyddu Safonol y mae cyrff sy'n aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Cyrff Cyfrifeg yn eu cyhoeddi, i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn briodol. Mae Cyfarwyddiadau Cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd i NHMF fis Hydref 2002 gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio yn benodol paratoi cyfrifon cyfunol. Gellir sicrhau copïau o Gyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Genedlaethol oddi wrth Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

b) Asedau sefydlog

Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau diriaethol sefydlog, gan gynnwys y rheiny a ddelir dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifir i ddiddymu cost neu brisiad pob ased dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Bydd yr oesau hyn fel a ganlyn:

eiddo ar brydles fer	– oes y brydles.
offer swyddfa	– 4–10 mlynedd
ffitiadau swyddfa	– 4–10 mlynedd

c) Dyrannu costau

Rhennir gweithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ddwy gronfa – Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri – gan adlewyrchu dwy ffynhonnell yr incwm. Bydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gwario ar gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau y mae grant-mewn-cymorth yn eu hariannu a gweithgareddau y mae'r Loteri Genedlaethol yn eu hariannu. Mae gofyn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol a Chanllawiau y mae'r Trysorlys yn eu cyhoeddi ar Ffioedd. Wrth ddosrannu costau, ceisir adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a neilltuir ar gyfer pob cronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, 99% oedd cyfran y cydgostau a ddosrannwyd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ceir adroddiad ar ganlyniadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn set o gyfrifon ar wahân.

ch) Treth

Ni ddarperir ar gyfer treth gyffredinol gan fod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi'i heithrio yn statudol. Ni all Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol adhawlio Threth Ar Werth a godir arni, a chynhwysir y gost gan gynnwys TAW dan y penawdau gwariant perthnasol.

d) Pensiwn

Nodir cost reolaidd darparu budd-daliadau ar y cyfrif incwm a gwariant dros oes gwasanaeth yr aelodau o'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi gwybod am y ganran tâl pensiynadwy ar ddechrau bob blwyddyn ariannol.

dd) Prydlesi

Nodir costau rhentu blynyddol ar brydlesi gweithredu ar y cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

e) Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, dangosir cyfran y balansau hyn y gellir eu priodoli i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y fantolen, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi tystio eu bod ar gael i'r Ymddiriedolwyr eu dosbarthu o ran ymrwymadau cyfredol a rhai i'r dyfodol.

f) Ymrwymadau Grantiau

Mae ymrwymadau 'meddal', fel y diffinnir hwy yng Nghyfarwyddyd Cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn cynrychioli penderfyniadau cadarnhaol yr Ymddiriedolwyr, yn amodol ar gwblhau contract yn llwyddiannus. Pan lwyddir i gwblhau'r contract, ymrwymadau 'caled' yw'r disgrifiad ohonynt.

ff) Benthyciadau

Mae gan yr Ymddiriedolwyr hawl i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth dan Gyfarwyddiadau Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yr Ymddiriedolwyr fydd yn pennu'r cyfraddau llog a'r telerau ad-dalu.

2. Incwm amrywiol	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Ad-dalu grantiau	1,199	198

3. Costau staff a niferoedd	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Cyflogau	7,580	7,101
Taliadau YG y cyflogwr	536	521
Taliadau i gynllun pensiwn (gweler nodyn 6)	937	949
Costau staff dros dro	460	391
	9,513	8,962

Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr
Roedd gan yr holl Ymddiriedolwyr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Hefyd, fe ad-dalodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol dreuliau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartref i'r swyddfa oedd yn eu cyflogi yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Talodd y Gronfa y dreth a oedd yn daladwy ar y treuliau hyn.

Daw tâl yr Ymddiriedolwyr hynny a dderbyniodd gyflog, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, o fewn y bandiau canlynol. Ildiodd tri Ymddiriedolwr eu hawl i gyflog.

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Ms. Liz Forgan (Cadeirydd)	40 – 45	40 – 45
Syr Angus Grossart	15 – 20	20 – 25
Tom Pritchard Ysw.	20 – 25	20 – 25
Mrs. Primrose Wilson	15 – 20	15 – 20
Nicholas Dodd Ysw.	10 – 15	10 – 15
Chris Baines Ysw.	0 – 5	10 – 15
James Wright Ysw.	10 – 15	10 – 15
Giles Waterfield Ysw.	5 – 10	5 – 10
Mike Phillips Ysw.	5 – 10	5 – 10
Derek Langslow Ysw.	5 – 10	5 – 10
Ms. Catherine Graham-Harrison	5 – 10	5 – 10
Ms. Madhu Anjali	5 – 10	5 – 10
Ms. Sue Palmer	0	0 – 5
Iarll Dalkeith	0 – 5	5 – 10
Tristram Hunt Ysw.	0	0
Matthew Saunders Ysw.	0	0
Brian Lang Ysw.	0 – 5	0
Mike Emmerich Ysw.	10 – 15	5 – 10

Mae pob un o'r Ymddiriedolwyr wedi'u penodi am dair blynedd, ac mae posibilrwydd y gellir adnewyddu hyn am ail dymor. Y Prif Weinidog sy'n eu penodi. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ei ddefnyddio. Ni dalodd y Gronfa unrhyw gyfraniadau i gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dyrannwyd tâl pob Ymddiriedolwr rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%:1%. £187,020 oedd cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2004/5 (2003/4 £183,132).

12 Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

Tâl gweithwyr

Roedd tâl cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

	Cyflog, gan gynnwys bonws perfformiad 04/05 £'000	Cyflog, gan gynnwys bonws perfformiad 03/04 £'000	Cynnydd gwirioneddol pensiwn a swm unwaith ac am byth £'000	Cyfanswm y pensiwn cronni erbyn 60 oed a'r swm unwaith ac am byth £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian (CETV) ar 31/3/05 £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian (CETV) ar 31/3/04 £'000	Cynnydd gwirioneddol CETV a ariannwyd gan NHMF £'000
Carole Souter Cyfarwyddwr	100 – 105	100 – 105	0 – 2.5 a 2.5 – 5 swm unwaith ac am byth	30 – 35 a 95 – 100 swm unwaith ac am byth	464	423	17
Stephen Johnson Cyfarwyddwr Gweithrediadau	90 – 95	85 – 90	0 – 2.5	40 – 45	626	589	7
Judith Cligman Cyfarwyddwr Polisi	70 – 75	65 – 70	0 – 2.5 a 2.5 – 5 swm unwaith ac am byth	15 – 20 a 50 – 55 swm unwaith ac am byth	238	205	18
Steve Willis Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio	90 – 95	85 – 90	0 – 2.5 a 5 – 7.5 swm unwaith ac am byth	35 – 40 a 110 – 115 swm unwaith ac am byth	605	543	26

Roedd gan yr holl uwch weithwyr contract cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%: 1% (2003-04: 99%: 1%).

Roedd nifer y gweithwyr ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

2004–05	Ceisiadau am grant	Cyllid a Gweinyddiaeth	Polisi ac Ymchwil	Cyfathrebu	Cyfanswm
Staff parhaol	171	42	16	19	248
Rhai ar secondiad, staff dros dro a staff contract	18	7	2	1	28
Cyfanswm	189	49	18	20	276
2003–04	Ceisiadau am grant	Cyllid a Gweinyddiaeth	Polisi ac Ymchwil	Cyfathrebu	Cyfanswm
Staff parhaol	165	34	10	14	223
Rhai ar secondiad, staff dros dro a staff contract	18	5	4	3	30
Cyfanswm	183	39	14	17	253

4. Diffyg gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Tâl yr Archwilydd	34	33
Taliadau dan brydlesi gweithredol –		
Safleoedd ar brydles	1,225	1,379
Llogi offer swyddfa	228	120

Mae dadansoddiad o ffioedd gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Llety	1,900	2,093
Post a ffôn	603	450
Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu	399	396
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – Ymddiriedolwyr	113	129
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff	473	477
Ffioedd proffesiynol – yn ymwneud â grantiau	3,525	3,599
Ffioedd proffesiynol – heb fod yn ymwneud â grantiau	3,264	3,210
Cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu	1,404	1,521
Offer swyddfa	482	899
Hyfforddiant staff	312	256
Colled ar waredu asedau sefydlog	0	3
Treuliau amrywiol	151	94
	12,626	13,127

5. Costau yr ailgodwyd amdanynt

Fel y datgelwyd yn nodyn 1 y cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddosrannu ei chostau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, 99% oedd cyfran y cydgostau a ddosrannwyd. O 1 Ebrill 2002, trosglwyddwyd holl weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i Holbein Place, Llundain. O'r herwydd, ailgodir am gostau llawn gweithredu'r holl swyddfeydd eraill ar Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

6. Pensiynau

Yn tynnu at ddiwedd 1999/00, derbyniwyd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ("PCSPS"). Bryd hynny, trosglwyddwyd yr holl weithwyr presennol, ac eithrio un aelod presennol o'r staff, i PCSPS. Gwnaeth cyn weithwyr a oedd yn cael pensiwn neu oedd â phensiwn wedi'i ddiogelu, ac un aelod presennol o'r staff, aros yng Nghynllun Pensiwn NHMF. Rheolwyd y cynllun NHMF arall hwn gan y Joint Superannuation Services Scheme ("JSS"). Mae PCSPS yn gynllun budd-daliadau diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu, ond ni all NHMF nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actwari llawn ar 31 Mawrth 2003. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet; Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Er mai cynllun budd-daliadau wedi'u diffinio yw'r cynllun, mae PCSPS yn atebol am dalu budd-daliadau yn y dyfodol. Mae adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill y mae PCSPS yn eu cynnwys yn talu cost y pensiwn a ddarperir i'r staff maent yn eu cyflogi trwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail gronedig. Ar gyfer 2004/5, talwyd cyfraniadau gweithwyr o £937,173 (2003/4: £948,558) i PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Adolygir cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn gan Actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt Gronni, yn hytrach na phan fydd y costau'n cael eu talu mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy PCSPS. O Hydref 2002, gall staff sy'n aelodau o'r cynllun fod mewn un o dri chynllun budd-dal â sail statudol, a ddiffinnir yn ôl "cyflog terfynol" (clasurol, premiwm, a chlasurol plws). Gall staff newydd sy'n cychwyn ar ôl mis Medi 2002 ddewis ymaelodi â'r cynllun premiwm neu gallant ymuno â threfniant wedi'i seilio ar drefniad budd-ddeiliaid "prynu arian" o ansawdd da lle bydd cyfraniad y cyflogwr yn un sylweddol (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gellir gweld y gwahaniaethau rhwng y cynlluniau ar wefan www.civilservice-pensions.gov.uk. Nid oedd gan unrhyw aelod o staff gynllun wedi'i seilio ar drefniad budd-ddeiliaid ar ddiwedd y flwyddyn.

14 Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog fel a ganlyn. Fe fydd y cyfraddau yn 2005/6 yn uwch, a datgelir y rhain yn y tabl isod:

Cyflog yn 2004/5	% yn 2004/5	Cyflog yn 2005/6	% yn 2005/6
£17,500 a llai	12%	£18,000 a llai	16.2%
£17,501 – £36,000	13.5%	£18,001 – £37,000	18.6%
£36,001 – £62,000	16.5%	£37,001 – £63,500	22.3%
£62,001 a throsodd	18.5%	£63,501 a throsodd	24.6%

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd darpariaethau a wnaeth y Gronfa gan ddilyn canllawiau JSS yn gofalu am un aelod o staff. Bydd JSS yn darparu manylion i'r Gronfa ynghylch y darpariaethau y disgwylir i'r Gronfa eu gwneud bob blwyddyn er mwyn galluogi'r Gronfa i dalu'r rhwymedigaethau pensiwn a fydd yn cronni dan y cynllun. 31 Mawrth 1998 oedd y tro diwethaf y rhoddwyd cyngor o'r fath. Cynllun budd-daliadau wedi'u ddiffinio yw'r cynllun. Os bydd gweithwyr y Gronfa wedi ymddeol ac yn dal i fod yn aelodau o gynllun JSS, telir y taliadau o adnoddau ariannol y Gronfa ac nid trwy JSS, gan nad oes ganddo unrhyw asedau. Gan mai cynllun caeedig yw JSS, dan y dull uned ragamcanedig, bydd y costau gwasanaethu presennol yn cynyddu wrth i aelod y cynllun ddynesu at oedran ymddeol. Ni fydd gweithwyr newydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ymuno â JSS ond yn hytrach, byddant yn ymuno â PCSPS.

Fis Mawrth 2003, derbyniodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gadarnhad gan Actwari'r Llywodraeth mai £5.075 miliwn oedd y gost i PCSPS o drosglwyddo'i rhwymedigaethau pensiwn dyledus. Ddiwedd mis Mawrth 2003, cytunodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ad-dalu i'r Gronfa y gost o drosglwyddo'i phensiwn i PCSPS am y rhwymedigaethau hynny sy'n ymwneud â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Cynhwyswyd amcangyfrif o'r ymraniad rhwng rhwymedigaethau grant-mewn-cymorth a rhwymedigaethau'r Loteri yn y cyfrifon ar gyfer 2002-03 a'r taliadau a wnaed i PCSPS ar y sail honno. Darparodd Actwari'r Llywodraeth ymraniad o'r £5.075 miliwn rhwng rhwymedigaethau grant-mewn-cymorth a rhwymedigaethau'r Loteri fis Medi 2003. Dangosodd hyn fod yr ymraniad roeddem wedi'i amcangyfrif ar gyfer y rhwymedigaethau grant-mewn-cymorth yn rhy fyr o £177,220. Golyga hyn fod y ddarpariaeth yng nghyfrifon Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar 31 Mawrth 2003 £177,220 yn ormod a bod HLF wedi talu gormod i PCSPS fis Mawrth 2003. Gwnaed taliadau i wneud yn iawn am hyn yn 2004-05.

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Darpariaeth ar 1 Ebrill	122	176
Gostyngiad yn y rhwymedigaethau pensiwn a nodwyd yn 03/04	0	(177)
Swm sy'n ddyledus o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol	0	177
Taliadau i'r cyn Gyfarwyddwr	(52)	(58)
Cynnydd yn y ddarpariaeth ar sail costau'r gyflogres	5	4
Taliadau pensiwn a wnaethpwyd	0	0
Darpariaeth ar 31 Mawrth	75	122

7. Asedau diriaethol sefydlog

	Gwelliannau i Eiddo ar Brydles Fer £'000	Offer Swyddfa £'000	Ffitadau Swyddfa £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2004	2,106	2,007	724	4,837
Ychwanegiadau	130	35	10	175
Gwarediadau	0	0	0	0
ar 31 Mawrth 2005	2,236	2,042	734	5,012
Dibrisiad ar 1 Ebrill 2004	734	1,476	724	2,934
Ffi am y flwyddyn	340	249	2	591
Addasiad ar ôl gwaredu	0	0	0	0
ar 31 Mawrth 2005	1,074	1,725	726	3,525
Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2004	1,372	531	0	1,903
ar 31 Mawrth 2005	1,162	317	8	1,487

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerth yr asedau sefydlog ac maent yn fodlon nad oedd eu gwerth, ar 31 Mawrth 2005, yn llai na'u llyfrwerth net a ddangoswyd yn y cyfrifon. Ni ddaliwyd unrhyw asedau dan brydlesau cyllid. Mae gwerth asedau sefydlog yn cynrychioli ymraniad cymesur o'r asedau y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn eu defnyddio.

Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2005, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth o bwys mewn gwerthoedd cost hanesyddol. Felly, ni wnaethpwyd unrhyw addasiad yn y cyfrifon hyn i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol. Mae'r gwelliannau i eiddo ar brydles fer yn cynnwys costau addasu ac ailwampio ar safle Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac mae'r rhain yn cael eu dal dan brydlesi gweithredu.

8. Dyledwyr

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	593	888
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	792	540
Symiau sy'n ddyledus yn NHMF ar gyfer pensiynau	0	177
Benthyciadau staff	48	42
	1,433	1,647

Ddiwedd y flwyddyn, roedd yna un benthyciad i sefydliad treftadaeth oedd heb ei ad-dalu. Benthyciad o £2,067,500 a wnaed fis Mehefin 1999 i'r Academi Gerdd Frenhinol oedd hwn. Mae'r benthyciad hwn yn ad-daladwy mewn rhandaliadau blynyddol dros saith mlynedd. Derbyniwyd y pumed o'r rhain yn ystod y flwyddyn, a golyga hyn mai £592,500 yw'r swm sy'n ddyledus. Nid oes llog i'w dalu ar y benthyciad, oni bai bod y telerau ad-dalu'n cael eu torri.

£296,250 oedd swm y benthyciad a ddaw yn ddyledus (31 Mawrth 2004: £592,500) ar ôl mwy na blwyddyn. Nid oedd unrhyw falansau eraill yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

9. Buddsoddiadau

Symudiad yn y balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Cost gyfredol ar 1 Ebrill 2004	942,570	1,020,047
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth y Loteri Genedlaethol	226,074	216,474
Cronfeydd a dynnwyd i lawr	(308,268)	(323,792)
Elw ar fuddsoddiad	43,593	41,544
Colled heb ei wireddu ar fuddsoddiad	(3,395)	(11,703)
Cost gyfredol ar 1 Ebrill 2004	900,574	942,570

Nid oes yn rhaid talu treth ar enillion y mae NHMF yn eu gwireddu. Bydd y Comisiynwyr dros Ostwng y Ddyled Genedlaethol yn buddsoddi'r arian hwn ac yn ychwanegu eu helw at y balans a ddalir. Nid oes gan Ymddiriedolwyr NHMF unrhyw reolaeth ar y polisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisiau cyfrifyddu yn cynnwys mwy o wybodaeth am hyn.

10. Credydwyr: symiau ddaw yn daladwy cyn pen un flwyddyn

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Credydwyr gweithredol	885	1,568
Credydwyr eraill, gan gynnwys treth a nawdd cymdeithasol	197	178
Croniadau ac incwm gohiriedig	2,374	1,528
	3,456	3,274

Nid oedd unrhyw rai o rwymedigaethau Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi eu gwarantu. Gellir dadansoddi balansau'r credydwyr gweithredol fel a ganlyn:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Balansau gyda Llywodraeth ganolog	292	500
Balansau gydag awdurdodau lleol	21	16
Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus	0	0
Balansau y tu allan i'r llywodraeth	572	1,052
	885	1,568

16 Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005**11. Ymrwymïadau grantiau**

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Ymrwymïadau caled		
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	660,358	674,356
Trosglwyddiadau o ymrwymïadau meddal	366,476	302,068
Tynnu ymrwymïadau yn ôl	(9,069)	(12,119)
Ymrwymïadau a dalwyd	(284,832)	(303,947)
Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	732,933	660,358

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Ymrwymïadau meddal		
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	503,127	483,441
Ymrwymïadau meddal a wnaethpwyd	357,799	341,266
Tynnu ymrwymïadau meddal yn ôl	(13,315)	(19,512)
Trosglwyddiadau i ymrwymïadau caled	(366,476)	(302,068)
Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	481,135	503,127

Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n daladwy i ymgeiswyr yn ystod y cyfnodau canlynol:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Ymrwymïadau caled		
cyn pen blwyddyn	316,114	297,557
cyn pen dwy i bum mlynedd	416,819	362,801
wedi mwy na phum mlynedd	0	0
	732,933	660,358

Mae balans yr ymrwymïadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n daladwy i gyrff y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Balansau gyda Llywodraeth ganolog	71,931	54,720
Balansau gydag awdurdodau lleol	310,892	310,449
Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus	0	2,541
Balansau y tu allan i'r llywodraeth	350,110	292,648
	732,933	660,358

12. Ymrwymïadau

Mae ymrwymïadau blynyddol Cronfa Dreftadaeth y Loteri dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Eiddo ar brydles fer		
Yn dod i ben cyn pen blwyddyn	80	0
Yn dod i ben cyn pen dwy i bum mlynedd	747	264
Yn dod i ben wedi hynny	460	1,141
	1,287	1,405
Prydlesi gweithredol eraill		
Yn dod i ben cyn pen blwyddyn	16	22
Yn dod i ben cyn pen dwy i bum mlynedd	17	94
Yn dod i ben wedi hynny	0	0
	33	116

Nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri unrhyw ymrwymïadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymïadau cyfalaf sydd wedi'u cymeradwyo ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

13. Nodiadau i'r datganiad llif arian**a) Cysoni'r diffyg gweithredol i fewnlif/(all-lif) arian o weithgareddau gweithredol**

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Gostyngiad mewn cronfeydd	(111,795)	(65,341)
Llai: llog sy'n dderbyniadwy	(871)	(516)
Ychwanegu eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn ôl:		
– dibrisiad	591	509
– colled ar waredu asedau sefydlog	0	3
– gostyngiad mewn darpariaethau eraill	(47)	(231)
– cynnydd/(gostyngiad) yn y gronfa ymrwymiadau grantiau wrth gefn	72,575	(13,998)
– gostyngiad yn y balans yn NLDF	41,996	65,774
– colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau yn NLDF	0	11,703
Gostyngiad mewn dyledwyr nad ydynt yn talu llog	313	497
Cynnydd mewn credydwyr nad ydynt yn rhai cyfalaf	182	1,055
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu	2,944	(545)

b) Gwariant cyfalaf

	2004/05 £'000	2003/04 £'000
Taliadau i gaffael asedau diriaethol sefydlog	175	188

c) Dadansoddi newidiadau mewn cronfeydd net

	1 Ebrill 2004 £'000	Llifau arian £'000	31 Mawrth 2005 £'000
Arian yn y banc	1,072	3,541	4,613

14. Trafodion cyrff cysylltiedig

Corff cyhoeddus anadrannol dan nawdd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("DCMS"). Ystyrir DCMS yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri drafodion materol amrywiol, heblaw am ddyfarnu grantiau, gyda'r DCMS ac endidau eraill y mae'r DCMS yn eu noddi, sef Cronfa'r Loteri Fawr, English Heritage a Sport England.

Hefyd, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyflawni nifer o drafodion materol gydag adrannau eraill y Llywodraeth. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag endidau sy'n ystyried mai Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw eu rhiant-adran (sef English Nature a'r Asiantaeth Cefn Gwlad); y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Rhanbarthau y Llywodraeth.

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, bydd yr Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw gysylltiad uniongyrchol â cheisiadau am grantiau ac ag unrhyw berthynas fasnachol â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, a byddant yn eithrio eu hunain o brosesau perthnasol arfarnu grantiau, eu trafod a phenderfynu arnynt yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr am grantiau, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi ymwneud neu ddylanwad ar lefel na fyddai'n gydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ceir trefniadau cyfatebol i staff roi gwybod am fuddiannau ac i osgoi gwrthdaro posibl o ran buddiannau. Mae'r Gofrestr o Fuddiannau'r Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio trwy gysylltu ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan bump o Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (NHMF) gysylltiad â deuddeg corff a dderbyniodd grantiau'r Loteri. Mae Liz Forgan, cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, yn gadeirydd ymddiriedolaeth sy'n berchen ar grŵp papurau newydd. Gwariodd NHMF £34,837 yn uniongyrchol â'r sefydliad hwn neu drwy drydydd parti. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon nad oedd unrhyw bosibilrwydd y gallai'r Ymddiriedolwyr sicrhau enillion ariannol personol. Yn debyg, roedd gan 21 o aelodau'r pwyllgor gysylltiadau â 22 o gyrff y dyfarnwyd grantiau'r Loteri ar eu cyfer. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon nad oedd unrhyw bosibilrwydd y gallai aelodau'r pwyllgor sicrhau enillion ariannol personol. Nid oedd gan unrhyw aelod o staff gysylltiad â chyrff y dyfarnodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri grantiau iddynt yn ystod y flwyddyn.

15. Offerynnau Ariannol

Mae'n ofynnol dan FRS 13, "Deilliadau ac Offerynnau Ariannol eraill", bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu wrth greu neu newid y risgiau y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl.

18 Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005**Risgiau Hylifedd –**

Yn 2004-05, deilliodd £226,063,000 (84%) o incwm Cronfa Dreftadaeth y Loteri o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd yr incwm oedd yn weddill o elw ar fuddsoddiad o'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sef £40,213,000 (15%), llog banc ac incwm amrywiol, sef £2,070,000 (1%). Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn wynebu risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon bod ganddynt ddigon o adnoddau hylif o fewn NLDF a'r banc i dalu am yr holl grantiau a ddyfernir yn ystod y flwyddyn.

Risgiau Cyfradd Llog –

Buddsoddir asedau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, a fydd yn buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel fel arian parod a bondiau'r llywodraeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth ar fuddsoddiad y cronfeydd hyn. Ar ddyddiad y fantolen, £900.6 miliwn oedd gwerth buddsoddiadau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, tua 4.5% oedd yr elw ar gyfartaledd ar y buddsoddiadau hyn. Delir balansau arian parod, a dynnir i lawr o'r Gronfa Ddosbarthu i dalu am ymrwymadau grantiau a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc cyfradd newidiol y mae modd eu cyrchu ar unwaith. Roedd y rhain, ar gyfartaledd, yn cynnig cyfradd llog o 4.2% yn y flwyddyn. £4.6 miliwn oedd balans yr arian parod pan ddaeth y flwyddyn i ben. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw risgiau arwyddocaol o ran cyfraddau llog yn bygwth Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Risg Arian Tramor –

Nid yw risgiau cyfnewid arian tramor yn bygwth Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

16. Arian i Bawb

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu arian loteri i raglen Arian i Bawb ("A4A") a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol (rhan o'r Gronfa Loteri Fawr bellach). Yn 2004-05, £4.7 miliwn oedd ein cyfraniad, sef 8.7% o gyfanswm y nawdd. Fis Medi 2004, nododd y Gronfa Gymunedol ei bod yn bosibl bod Arian i Bawb wedi derbyn ceisiadau twyllodrus oddi wrth ymgeiswyr a oedd wedi gwneud sawl cais am grantiau bach. Yn ystod ymchwiliadau cychwynnol awgrymir mai £43,000 yw'r amcangyfrif cyfredol gorau o'r golled i'w phriodoli i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005. Ar sail cyfran y nawdd a gyfrennir i Arian i Bawb, £202,000 fyddai'r amcangyfrif cyfredol gorau o'r golled i'w phriodoli i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ers i ni ddechrau cyfrannu at Arian i Bawb fis Rhagfyr 1998. Mae ymchwiliad llawn i'r twyll tybiedig ar droed a, phan fydd yr ymchwiliad hwn wedi'i gwblhau, fe fydd partneriaid Arian i Bawb yn ystyried p'un a fydd yn bosibl ac yn briodol adfer yr arian. Yna fe fydd unrhyw golledion sy'n weddill yn cael eu diddymu'n ffurfiol.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri



P E R F F O R M I A D C O R F F O R A E T H O L

20 Perfformiad Corfforaethol

Perfformiad Corfforaethol

Targedau'r Cynllun Strategol – tair blynedd i 31 Mawrth 2005

	31 Mawrth 2005		31 Mawrth 2004		31 Mawrth 2003	
1. Bydd 50% o gyfanswm gwerth dyfarniadau'n mynd i grantiau dan £1m.	36.6%		37.4%		35.9%	
2. Ni fydd mwy na 25% o gyfanswm gwerth dyfarniadau'n mynd i grantiau £5m a mwy.	28.8%		26.3%		33.0%	
3. Cynnal lefel gyfredol y gwariant ar Arian i Bawb (adroddir ar y gwariant blynyddol)	£5.4m		£5.0m		£4.9m	
4. Dylai nifer y prosiectau i'w cefnogi fod yn fwy na (adroddir ar y ffigurau blynyddol): Grantiau treftadaeth – 355;	221 o brosiectau newydd (267 yn cynnwys prosiectau sydd eisoes yn bodoli)		232 (308)		330 (441)	
Eich treftadaeth – 800;	550 (550)		507 (510)		405 (409)	
Arian i Bawb – 1,650;	2,349 (2,349)		1,083 (1,083)		937 (937)	
Menter Treftadaeth Trefluniau – 21;	20 (21)		23 (23)		20 (21)	
Parciau – 30;	15 (24)		10 (27)		12 (47)	
Grantiau Atgyweirio Ar Gyfer Mannau Addoli – 150;	287 (670)		335 (403)		260 (260)	
Tirlun – 10;	9 (9)		1 (1)		2 (2)	
Menter Treftadaeth Leol – 300;	295 (299)		245 (245)		216 (216)	
Gwreiddiau Ifanc – 240	123 (123)		180 (180)		h/b	
5. Bydd canran yr ymgeiswyr o'r newydd i rai rhaglenni penodol yn fwy na:						
Arian i Bawb – 50%;	49%		62%		62%	
Eich treftadaeth – 30%	84%		87%		89%	
6. Cyfradd llwyddiant ymgeiswyr o'r newydd yn gyfartal ag ymgeiswyr eraill neu'n well	Iaf	Arall	Iaf	Arall	Iaf	Arall
Arian i Bawb	60%	61%	58%	57%	51%	51%
Eich treftadaeth	80%	80%	83%	89%	86%	92%
7. Ceisiadau o ardaloedd blaenoriaeth yn cyrraedd cyfartaledd y pen y rhanbarth yn ystod oes y Cynllun Strategol.	Ni wnaeth unrhyw ranbarth na gwlad gyrraedd y targed hwn. Gorau – Gogledd Ddwyrain a Gorllewin Canoldir Lloegr (cyrraeddwyd y targed mewn 4 allan o 6 ardal blaenoriaeth). Gwaethaf – Llundain, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru (cyrraeddwyd y targed mewn un ardal blaenoriaeth) {Nid yw data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol}		Ni wnaeth unrhyw ranbarth na gwlad gyrraedd y targed hwn. Gorau – Gogledd Ddwyrain a Gorllewin Canoldir Lloegr (cyrraeddwyd y targed yn 83% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – Llundain, Gogledd Iwerddon, yr Alban, De ddwyrain Lloegr a Chymru (cyrraeddwyd y targed mewn un ardal blaenoriaeth) {Nid yw data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol}		Ni wnaeth unrhyw ranbarth na gwlad gyrraedd y targed hwn. Gorau – Gogledd Ddwyrain (cyrraeddwyd y targed yn 83% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – Gogledd Orllewin a De Orllewin Lloegr (cyrraeddwyd y targed yn 0% o ardaloedd blaenoriaeth) {Nid yw data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol}	

	31 Mawrth 2005	31 Mawrth 2004	31 Mawrth 2003
8. Cyfradd llwyddiant mewn ardaloedd blaenoriaeth yn gyfartal i ardaloedd eraill yn y DU neu'n well.	Cyrhaeddodd Gorllewin Canoldir Lloegr y targed. Gwaethaf – Gogledd Iwerddon a Chymru (cyrhaeddwyd y targed mewn un ardal flaenoriaeth) {Nid yw data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol}	Ni wnaeth unrhyw ranbarth na gwlad gyrraedd y targed hwn. Gorau – Llundain (cyrhaeddwyd y targed yn 80% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – yr Alban a De Orllewin Lloegr (methwyd â chyrraedd y targed yn unrhyw ardal flaenoriaeth) {Nid yw data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol}	Ni wnaeth unrhyw ranbarth na gwlad gyrraedd y targed hwn. Gorau – Gorllewin Canoldir Lloegr (cyrhaeddwyd y targed yn 67% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – {Nid yw data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol}
9. Swm cynyddol o straeon cadarnhaol wedi'u cynhyrchu gan HLF yn y cyfryngau am faterion sy'n ymwneud â threftadaeth: rhanbarthol a chenedlaethol.	Wedi'i gyflawni ac yn parhau. Mae dadansoddiad y cyfryngau'n parhau i gynyddu o ran maint a gogwydd yn y wasg genedlaethol a rhanbarthol fel ei gilydd. Cynnydd sylweddol yn y straeon sectoraidd ac arbenigol. Ymdriniwyd â swp-gyhoeddiad dadleuol o bwys fis Ionawr 2005, gyda dyfyniadau cadarnhaol gwleidyddion/partneriaid perthnasol yn cefnogi pob cyhoeddiad, gan gynnwys cynhadledd y wasg yn yr Alban lle roedd gweinidogion yn bresennol. Roedd y straeon a gyhoeddwyd o ganlyniad yn gytbwys gyda negeseuon positif ar draws y cyfryngau cenedlaethol ac ychydig iawn o straeon negyddol. Ymdriniwyd â chyhoeddiad am grantiau rhanbarthol/cenedlaethol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2005 gyda 'materion treftadaeth' positif a dyfyniadau gwleidyddol cadarnhaol ar gyfer pob stori. Rheolwyd cyhoeddiad mis Mawrth am Tyntesfield yn llwyddiannus ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyda chanlyniad positif i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.		
10. Gwell ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth ymhlith arweinwyr barn, a'u cefnogaeth.	Cynhyrchwyd taflen yn disgrifio ein gwaith ar 'Dreftadaeth a Hunaniaeth' y llynedd. Yn ogystal ag atgoffa pobl o weithrediadau yn ein cynhadledd genedlaethol yr haf diwethaf, mae'n adrodd ar waith yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn ystod tymor yr hydref, ac mae'n sôn am gynlluniau ar gyfer 2005. Mae Ffeithlenni Sectoraidd Polisi Cylched Un bellach wedi'u cwblhau; mae'r pump cyntaf yn cynnwys Bioamrywiaeth, Parciau Cyhoeddus, Treftadaeth Ddiwydiannol, Addysg, ac Amgueddfeydd ac Oriolau. Mae'r teulu hwn o ffeithlenni'n canolbwyntio ar bynciau â blaenoriaeth sy'n manylu'n eglur ar yr hyn y mae HLF wedi'i gyflawni mewn sector penodol, neu o'i gymharu ag agenda benodol y llywodraeth dros y 10 mlynedd diwethaf, i helpu sector/lunwyr polisi i bledio achos dros ariannu parhaus ac i ddarparu ffigyrau cyson i'w defnyddio'n allanol. Mae ein gwefan newydd bellach ar waith, yn dilyn 'lansio meddal' ddiwedd y llynedd. Mae llawer wedi'i chanmol hyd yma ac mae nifer o nodweddion newydd y mae ymwelwyr yn defnyddio llawer amynt.		
11. Cynnal 3 achlysur cyhoeddus ar faterion treftadaeth	Proffil uchel i HLF o fewn Heritage Counts ac achlysuron Pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 10 oed. Cynhaliwyd cynadleddau cenedlaethol o bwys ar Dreftadaeth a Hunaniaeth yn Llundain a Chaerdydd. Buom yn gweithio gyda'r Gymdeithas Amgueddfeydd i gynnal cynhadledd o'r enw "Game Plan – Museums and Lottery Funding", sef cynhadledd roedd cyhoeddiad ac araith gyweirnod Weinidogaethol yn ei chefnogi.		

22 Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol**Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol****Targedau'r Cynllun Strategol**

Dyma drydedd flwyddyn ein Cynllun Strategol 2002-7 a sylwebaeth yw'r nodiadau canlynol ar ein cynnydd tuag at gyrraedd y targedau rydym wedi'u gosod ar ein cyfer dros oes y cynllun.

Dangosydd 1

Gellir priodoli'r ffaith bod 36.6% o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd eleni wedi mynd ar gyfer grantiau gwerth llai na £1 miliwn i nifer o ffactorau. Rydym wedi denu llai o geisiadau nag a ragwelwyd am rai o'n rhaglenni grantiau llai; bu llai o grantiau rhwng £2 filiwn a £5 miliwn, ond hefyd aeth nifer sylweddol o ddyfarniadau rhwng £1 miliwn a £2 filiwn trwy fusnes arferol y pwyllgor.

Dangosydd 2

Mae'r Bwrdd wedi dyfarnu £111.5 miliwn eleni mewn dyfarniadau gwerth mwy na £5 miliwn. Mae'r ffigur hwn tua 31.2% o gyfanswm ffigur dyfarniadau 2004/5 o £357.6 miliwn. Golyga hyn fod y ffigur a ddyfarnwyd i brosiectau gwerth mwy na £5 miliwn yn agos i 29% dros dair blynedd y cynllun strategol.

Dangosydd 3

Cafwyd gostyngiad bychan yn y ffigur hwn ar gyfer gwariant ar Arian i Bawb ledled y DU, o'i gymharu â ffigur y llynedd. Fodd bynnag, mae dau eginyn newydd rhaglen Arian i Bawb – Cofio'r Ffrynt Cartref (£660,000) a Micro-grantiau (£15,000) wedi golygu bod y cyfanswm wedi cynyddu i £5.4 miliwn.

Dangosydd 4

Rydym wedi cyrraedd ein targedau cynlluniedig ar gyfer Trefluniau, Partneriaethau Tirlun, a'r cynllun Grantiau Atgyweirio Ar Gyfer Mannau Addoli yn Lloegr. Mae ffigur Arian i Bawb yn uwch na ffigur y llynedd, ond nid yw wedi llwyddo (gweler uchod) i glustnodi'r holl adnoddau sydd ar gael.

Mae Grantiau Treftadaeth yn is na'r targed o ran eu nifer; er ein bod, o ran adnoddau, wedi clustnodi ffigur sylweddol fwy na'r ffigyrau roeddem wedi'u rhagweld ar gyfer eleni. Mae hyn yn rhannol oherwydd y penderfyniad i glustnodi £111.5 ar gyfer wyth cais am grant sylweddol newydd dan y portffolio Grantiau Sylweddol. Mae maint cyfartalog y grantiau y gwneir cais amdanynt ar gynnydd, ac yn 2004/5 nid oedd yn bosibl i ni geisio gwasgaru £211 miliwn (cyfanswm y ffigur ar gyfer Grantiau Treftadaeth yn 2004/5) a dyfarnu 355 grant pan roedd bron i hanner y ffigur a oedd ar gael wedi'i glustnodi ar gyfer wyth yn unig o grantiau sylweddol.

Mae ein Grantiau Treftadaeth wedi parhau i fod ychydig yn unig (tua 10%) yn uwch na ffigur y llynedd. Rydym yn parhau i obeithio y gallwn gynyddu nifer y grantiau yn y maes hwn y flwyddyn nesaf fel ei bod yn agos i'r ffigur 800 y flwyddyn roeddem wedi'i rhagweld yn wreiddiol ar gyfer blwyddyn ganol ein Cynllun.

Dangosydd 5

Bwriad ffigur Arian i Bawb yw mesur i ba raddau y mae ein rhaglenni grantiau llai yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r dreftadaeth, ac mae'r ffigur hwn mwy neu lai ar darged. Ar yr un pryd mae ffigur Eich Treftadaeth yn dal i fod yn drawiadol o ran y sail ymgeiswyr mae'n eu denu.

Dangosydd 6

Bwriedir i hwn fod yn fesur sy'n dangos na fydd ymgeiswyr o'r newydd dan anfantais oherwydd nad ydynt yn gyfarwydd â HLF. Mae'r ffigyrau'n dangos bod ymgeiswyr o'r newydd ac ymgeiswyr a oedd yn dychwelyd ar gyfer grantiau Arian i Bawb ac Eich Treftadaeth fwy neu lai yr un mor llwyddiannus â'i gilydd.

Dangosydd 7

Mae'r ffigyrau'n dal i ddangos y gwaith sydd ar droed i sicrhau lle mwy amlwg i allu HLF i ariannu prosiectau yn rhai o'r ardaloedd hynny sydd fwyaf anodd i ni eu cyrraedd â'n nawdd. Mae pob tîm wedi gallu adrodd rhywfaint o lwyddiant yn hyn o beth.

Dangosydd 8

Mae cyfradd llwyddiant ymgeiswyr o'n hardaloedd datblygu â blaenoriaeth yn fesur sy'n dangos i ba raddau rydym yn annog pobl i gyflwyno ceisiadau y mae modd eu cefnogi. Cronnir y ffigyrau hyn dros bum mlynedd y Cynllun Strategol, ond bu peth gwelliant yn ein perfformiad yn ystod y tair blynedd diwethaf ac yng ngraddau'r cyfraddau llwyddiant a gyflawnwyd mewn nifer o'n hardaloedd dethol â blaenoriaeth.

Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol**12 mis i 31 Mawrth 2005**

Dangosyddion lefel gwasanaeth –	Mawrth 2005	Mawrth 2004
1. Asesir pob cais o'i gymharu â meini prawf allweddol cyn pen 3 mis o'i dderbyn, a rhoddir gwybod am geisiadau aflwyddiannus bryd hynny.	74% 69 diwrnod ar gyfartaledd	70% 77 diwrnod ar gyfartaledd
2. Yr amser ar gyfartaledd rhwng derbyn cais a phenderfynu arno:		
Rhaglen grantiau treftadaeth –		
• Cyfnod 1 – 6 mis calendr	5.4 mis 68% wedi cyrraedd y targed	6.4 mis 47%
• Cyfnod 2 – 4 mis calendr;	5.2 mis 54%	5.6 mis 48%
Eich Treftadaeth – 3 mis calendr;	2.9 mis 64%	3.4 mis 49%
Menter Treftadaeth Trefluniau – 6 mis calendr;	5.1 mis 96%	4.6 mis 100%
Grantiau Atgyweirio Ar Gyfer Mannau Addoli – 6 mis calendr;	4.6 mis 87%	5.4 mis 85%
Cynllun Parciau Cyhoeddus –		
• Cyfnod 1 – 9 mis calendr;	7.2 mis 67% wedi cyrraedd y targed	11.7 mis 15%
• Cyfnod 2 – 5 mis calendr	6.3 mis 50%	6.8 mis 25%
Partneriaeth Tirlun –		
• Cyfnod 1 – 6 mis calendr;	5.2 mis 82%	5.5 mis 100%
• Cyfnod 2 – 4 mis calendr	h/b	h/b
Menter Treftadaeth Leol – 3 mis calendr;	2.5 mis	2.2 mis
Arian i Bawb – 3 mis calendr;	1.9 mis	2.2 mis
Grantiau Cynllunio Prosiectau – 3 mis calendr	3.4 mis 48%	3-8 mis 41%
3. Gosodir penderfyniadau ar wefan HLF cyn pen 10 diwrnod gwaith wedi'r cyfarfod.	Diweddarir bob 6.8 diwrnod ar gyfartaledd	bob 10 niwrnod ar gyfartaledd
4. Cyhoeddir contract i ymgeiswyr llwyddiannus cyn pen 35 diwrnod gwaith.	94% 17 diwrnod ar gyfartaledd	90% 17 diwrnod
5. Telir grantiau i'r ymgeisydd cyn pen 15 diwrnod gwaith, ar gyfartaledd, o dderbyn cais am y taliad.	Gweithrediadau 6 diwrnod 92% wedi cyrraedd y targed Cyllid 2 ddiwrnod Cyfanswm 8 diwrnod	Gweithrediadau 4 diwrnod. 94% Cyllid 2 ddiwrnod Cyfanswm 6 diwrnod
6. Penderfynir ar bob achos a atgyfeirir i'r Pwyllgor Adolygu a Chwynion cyn pen pedwar mis.	100%	Dim cyfarfod yn ystod y flwyddyn
7. Bydd arolwg o ymgeiswyr grantiau'n dangos cyfradd bodlonrwydd o 75% â gwasanaeth HLF (o ran asesu) a 88% (o ran monitro).	Asesu – 75% Monitro – 82%	Asesu 74% Monitro 85%
8. Bydd cost uned prosesu ceisiadau am grantiau, heb gynnwys cost monitro a gwerthuso ar ôl penderfyniad, yn llai na £2,150 am bob cais.	£1,778 (£4,487 ac eithrio achosion a brosesir yn allanol)	£2,153 (£4,467)

Nid yw'r data yn cynnwys Grantiau Atgyweirio Ar Gyfer Mannau Addoli yn Lloegr

Dangosyddion lefel gwasanaeth

Mae'r dangosyddion perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn ynglŷn â thargedau gwasanaeth allweddol yn dangos gwelliant boddhaol yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar y ffigyrau oedd wedi'u cyflawni pan ddaeth blwyddyn 2003/4 i ben. Rydym wedi cwtfogi ar yr holl amseroedd prosesu ar gyfartaledd yn achos yr Adolygiad Cychwynnol, dyfarniadau Cyfnod 1 a Chyfnod 2, a grantiau Eich Treftadaeth; ac o ganlyniad, mae canran nifer yr achosion sy'n cael eu prosesu o fewn y dyddiadau cau penodol hyn yn sylweddol uwch.

24 Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol**Dangosydd 1**

Mae perfformiad asesu cychwynnol achosion bellach 8 diwrnod ar gyfartaledd yn gyflymach nag yn 2003/4. Yn 26% o achosion nid ydym yn cyrraedd ein targed o 91 diwrnod. Mewn rhai achosion, byddwn yn mynd yn syth at yr asesiad llawn, a dyma'r rheswm am hyn.

Dangosydd 2

Mae yna welliannau sylweddol i adrodd arnynt ar y ffigyrau a gofnodwyd yn 2003/4 yn achos nifer o'r amseroedd prosesu ar gyfer rhai rhaglenni grantiau unigol, ac rydym bellach yn cyrraedd ein targedau, ar gyfartaledd, o ran amser cwblhau'r broses yn achos Grantiau Treftadaeth ac Eich Treftadaeth. Hyd yn oed yn achos Parciau Cyhoeddus, lle rydym wedi cynyddu'r targed cwblhau'r broses i 9 mis er mwyn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi cymryd llawer o amser i'w prosesu mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein perfformiad bellach yn gwellu. Y rhaglenni hynny rydym yn eu sypynnu a'u rheoli – yn aml gydag amserlen benodedig – yw'r rhai a gedwir agosaf i'r nod.

Mae ceisiadau cyfnod 2 am Grantiau Treftadaeth a Pharciau Cyhoeddus yn parhau i achosi problemau. Oherwydd materion parhaus sy'n ymwneud â chymhlethdod cynigion a'n hangen i sicrhau ansawdd y deilliannau, mae hi wedi bod yn anodd i ni gwtogi ar yr amseroedd prosesu yma.

Dangosydd 3

Cyflawnwyd gwelliant sylweddol mewn perfformiad.

Dangosydd 4

Rydym yn parhau i wella perfformiad yn yr ardal hon ac, oherwydd ein bod bellach wedi cynnwys y dogfennau contract gyda'r pecynnau cais, dylid hefyd osgoi'r oedi a fyddai arfer â digwydd wrth drin contractau.

Dangosydd 5

Rydym wedi cynnal amser prosesu taliadau grant cyflym eleni.

Dangosydd 6

Ychydig yn unig o gŵynion wnaethom eu derbyn yn ystod y flwyddyn. O'r rheiny y gwnaethom eu derbyn, deliwyd â hwy ar darged.

Dangosydd 7

Mae lefelau boddhad cwsmeriaid â'n gwaith asesu a'n gwaith monitro, wedi'u mesur drwy gyfrwng arolygon a gynhelir yn annibynnol dros y ffôn, yn dangos bod boddhad crystal neu ychydig yn well na'r oedd ein hymgeiswyr yn ei ddisgwyl, ond cafwyd gostyngiad bach yn yr uchafbwynt a gofnodwyd o'r blaen, sef perfformiad 85% am ein gwasanaethau monitro.

Dangosydd 8

Gwnaed hi'n anos i ni gyrraedd y targed cost unedau ar gyfer 2004/5 oherwydd ei fod wedi'i leihau o £2,400 i £2,150. Gwnaethom lwyddo i gyrraedd y targed hwnnw trwy gadw rheolaeth ar ein costau gweinyddu (cynnydd o 0.6%) tra'n prosesu mwy o geisiadau.

Monitro

Mae monitro prosiectau sydd ar droed yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwaith. Yn ystod y flwyddyn, mae nifer yr achosion byw sy'n cael eu monitro wedi parhau i godi o lefelau y llynedd, o tua 3,700 fis Ebrill 2004 i ychydig dros 4,000 fis Mawrth 2005. Dynodwyd oddeutu 2,500 o'r rhain yn rhai risg isel lle bydd ymgeiswyr yn eu monitro eu hunain gan adrodd i'n staff. Rydym wedi cymryd camau eleni i adolygu ein dull o fonitro prosiectau yng ngoleuni 10 mlynedd o brofiad, a chanlyniad hyn oedd cynyddu nifer y prosiectau y'u hystyriwyd yn rhai risg isel ac felly heb fod angen cymaint o fonitro ymwithol. Rydym hefyd wedi gwahodd tendrau newydd ar gyfer ein Cofrestr o Gyngorwyr Proffesiynol i adlewyrchu'r angen am bobl brofiadol i fonitro a all ein helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau o'r grantiau rydym wedi'u dyfarnu.

Gwerthuso

Yn ystod 2004/05 fe wnaethom gynnydd pwysig wrth werthuso ein rhaglenni grantiau, gan gyhoeddi adroddiad y gwnaethom gomisiynu cwmni Demos i'w gynhyrchu. Roeddem wedi gofyn i Demos ddatblygu fframwaith y gallem ei ddefnyddio i ddisgrifio a chyflwyno buddiannau ein nawdd. Gwnaethant gynnig ein bod yn defnyddio'r syniad o 'werth diwylliannol'. Trwy'r fframwaith hwn fe fyddwn yn gallu dwyn ynghyd gwerth cynhenid treftadaeth a buddiannau cyfryngol ein nawdd, yn ogystal ag effeithiau sy'n gysylltiedig â'n ffordd o weithio fel sefydliad. Mae adroddiad Demos, sef '*HLF and Cultural Value*' ar gael ar ein gwefan, neu o'n hadran cyhoeddiadau.

Rydym yn parhau i wella ein defnydd o'r data rydym yn eu casglu oddi wrth ymgeiswyr. Rydym hefyd wedi coethi'r wybodaeth ôl-brosiect rydym yn gofyn i'r rhai sy'n derbyn grantiau ei darparu. Mae nifer o brosiectau ymchwil newydd yn edrych ar fuddiannau cymdeithasol ac economaidd ein rhaglenni Grantiau Treftadaeth ac Eich Treftadaeth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i werthuso ein mentrau oedd wedi'u targedu, gan wneud mwy o waith ar gynlluniau Menter Treftadaeth Trefluniau, Gwreiddiau Ifanc a Mannau Addoli ar y Cyd.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri



CYNNYDD AR BROSIECTAU + £5 MILIWN

26 Cynnydd ar Brosiectau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd ar brosiectau heb eu cwblhau sy'n derbyn £5m neu fwy o arian y Loteri.

Teitl y prosiect	Cyfanswm cost y prosiect	Swm y grant	% y Grant a Dalwyd hyd yma	Yr adroddiad diweddaraf o'r safle
Air Space Duxford	£19,443,420	£9,000,000	20%	Gwaith galluogi wedi'i gwblhau. Cychwynwyd ar y prif brosiect cyfalaf, ac mae'r durwaith a tho'r adeilad newydd bellach wedi'u codi mewn pryd i godi'r estyniad ffyrnt. Rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau yn gynnar yn ystod haf 2006.
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe	£30,894,398	£10,699,000	87%	Disgwylir cwblhau'r prosiect cyfan fis Gorffennaf 2005, gydag agoriad swyddogol fis Hydref 2005.
Ancoats, Murray's Mills	£11,800,000	£7,164,563	18%	Cychwynwyd y gwaith atgyweirio cragen yr adeilad ar y safle, a disgwylir ei gwblhau fis Ebrill 2006.
Battersea Park (Llundain, Wandsworth)	£10,865,787	£7,500,000	100%	Y cynllun adfer bellach wedi'i gwblhau a thalwyd y grant llawn fis Ebrill 2005.
Birkenhead Park	£11,381,645	£7,423,000	8%	Cyfnod dylunio'r Grand Lodge bron wedi'i gwblhau. Mae'n debygol y bydd pecyn y pafliwn wedi'i gwblhau fis Mehefin 2005. Disgwylir cwblhau'r gwaith ymarferol fis Rhagfyr 2006.
Birmingham Town Hall	£24,540,076	£13,500,000	0%	Gwaith wedi cychwyn ar y safle. Ar fin tynnu'r arian cyntaf i lawr: Dyddiad cwblhau fis Hydref 2007.
British Film Institute, Berkhamstead	£18,500,000	£9,149,560 (grant gwreiddiol £13,875,000 – llai gostyngiad o £4,725,440)	90%	Y prosiect bron iawn â'i gwblhau, gydag un pecyn bach (tapiau Nationwide) i fod i gael ei gwblhau fis Mehefin 2005. Yn brydlon ac o fewn y gyllideb.
Castell Caerdydd	£7,782,940	£5,742,500	53%	Dylid cwblhau'r Ganolfan Ymwelwyr erbyn diwedd 2006. Derbyniwyd tendrau at gyfer ail gyfnod cadwraeth allanol y tŷ.
Chatham Historic Dockyard	£17,372,000	£13,514,981	96%	Prosiect bron iawn â'i gwblhau – yr unig elfen sy'n weddill yw draenio ac ailbaentio'r cesonau, i'w chwblhau yn ystod yr haf 2005.
Christ Church Spitalfields, Tower Hamlets, Llundain	£9,446,182	£5,984,500	91%	Gwaith wedi'i gwblhau. Yn aros am dynnu'r arian terfynol i lawr.
City & County Museum, Lincoln	£11,023,870	£5,141,000	68%	Dechreuwyd y gwaith ar y safle fis Chwefror 2003. Cynnydd da ar y gwaith cyfalaf a ddylai gael ei gwblhau ymhell cyn y dyddiad cwblhau a ragwelwyd, sef mis Gorffennaf 2005.
Covent Garden Prosiect, London Transport Museum	£16,567,368	£8,608,000	1%	Dechreuwyd y gwaith galluogi ar y safle fis Ebrill 2005.
The Darwin Centre II	£65,820,000	£19,900,000	0%	Y gwaith galluogi yn yr Oriolau ac yn Wandsworth ar droed i hwyluso adleoli'r adeilad entomoleg presennol. Lluniadau Cyfnod E wedi'u cwblhau a'r taliad cyntaf ar fin cael ei dalu.
Dean Gallery, Caeredin	£8,331,158	£6,311,000	90%	Y prosiect wedi'i gwblhau. Y grant terfynol i'w dynnu i lawr yn cael ei asesu ar hyn o bryd.
East Park Restoration, Kingston upon Hull	£9,232,246	£6,397,364	13%	Dechreuwyd y gwaith ar y safle, ac mae'r gwaith ar y bont wedi'i gwblhau, a phont y llyn bellach wedi'i hailagor. Y gwaith tirlunio ar y craidd hanesyddol wedi cychwyn fis Mawrth 2005. Dyfarnwyd cynnydd o £995,300 yn y grant fis Ionawr 2005. Rhagwelir cwblhau'r gwaith yn ystod haf 2006.
Fitzwilliam Museum Courtyard Development	£11,404,688	£5,626,000	100%	Cwblhawyd y prosiect yn brydlon ac o fewn y gyllideb.

Football Museum, Preston	£14,020,201	£9,384,000	99%	Cwblhawyd y prosiect cyfalaf yn 2004. Grant referniw ar gyfer Swyddog Addysg yw'r grant sy'n weddill i'w fonitro. Bydd hyn yn parhau hyd 2006.
Gilbert Collection, Somerset House, Llundain	£30,750,000 (grant cyfalaf £20.75m + gwaddol £10m)	£30,750,000	100%	Prosiect bellach wedi'i gwblhau.
Glasgow Green, Glasgow	£14,580,000	£8,821,000	85%	Mae chwe contract yn parhau ar y gweill o gyfanswm o bymtheg. Dyddiad y daw'r grant i ben Mawrth 2007.
John Rylands Library, Manceinion	£15,007,098	£8,194,000	33%	Y prif waith cyfalaf yn mynd rhagddo gyda strwythur dur ar gyfer adeilad newydd wedi'i godi. Yr adleoli wedi'i gwblhau. Rhagwelir cwblhau'r gwaith yn ystod gwanwyn 2006.
Kelvingrove New Century Prosiect, Glasgow	£25,508,000	£12,793,000	69%	Caewyd yr amgueddfa ddiwedd mis Mehefin 2003 ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Mae'r gwaith atgyweirio craidd a'r gwaith trosi ar yr adeilad hanesyddol bellach wedi'i gwblhau. Mae'r adeilad wedi'i drosglwyddo er mwyn gosod offer.
Kennet & Avon Canal, Devizes	£33,240,000	£25,000,000	99%	Y prosiect wedi'i gwblhau a chynhaliwyd yr agoriad swyddogol. Y taliad terfynol ar fin cael ei dalu.
Leeds City Museum	£25,972,000	£19,479,000	5%	Dechreuwyd y gwaith ar y safle, a bwriedir dechrau'r gwaith ar y Ganolfan Adnoddau fis Gorffennaf 2005. Rhagwelir cwblhau'r gwaith fis Mehefin 2007.
Lowry Centre, Salford	£21,563,700	£10,875,000	100%	Y cynllun cyfalaf bellach wedi'i gwblhau a'r grant llawn wedi'i dalu.
Manchester City Art Gallery Cyfnod II Prosiect Ehangu	£24,731,000	£18,800,000	98%	Y prosiect wedi'i gwblhau. Rhagwelir tynnu'r arian terfynol i lawr yn ystod haf 2005.
Museum in Docklands, Tower Hamlets, Llundain	£17,999,950	£15,298,000	90%	Y cyfnod cyfalaf wedi'i gwblhau. Maent wedi cychwyn tynnu cyfnod referniw 3 blynedd i lawr. Rhagwelir cwblhau'r gwaith fis Ebrill 2006.
Museum of Science and Industry, Manceinion	£13,200,000	£8,800,000	92%	Y prosiect wedi'i gwblhau 2004. Yn aros am dynnu'r arian terfynol i lawr.
National Maritime Museum, Falmouth	£30,175,431	£18,431,638	95%	Y prif brosiect cyfalaf wedi'i gwblhau 2004. Dyfarnwyd cynnydd yn y grant ar gyfer referniw mynediad ac addysg fis Ionawr 2005. Daw'r grant referniw i ben 2010.
NMGM 2001 (National Museums Liverpool)	£36,686,790	£32,161,000	90%	Y prosiect wedi'i gwblhau. Agorwyd yr amgueddfa fis Mawrth 2005. Yn aros am dynnu'r arian terfynol i lawr.
Playfair, Caeredin	£25,667,000	£7,390,000	94%	Y prosiect cyfalaf wedi'i gwblhau a chafwyd agoriad swyddogol fis Awst 2004. Ar fin tynnu'r grant terfynol i lawr.
Preservation Plan Stowe House – Cyfnod II	£7,371,000	£5,528,000	73%	Bwriedir cwblhau'r holl waith erbyn diwedd mis Mehefin 2005.
Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru	£7,085,427	£5,278,000	86%	Y prosiect wedi'i gwblhau ar wahân i fân rwystrau. Lansiwyd y prosiect yn swyddogol fis Ebrill 2004. Disgwylir cwblhau'r gwaith ymarferol fis Awst 2005.
Restoration of the London Coliseum	£14,531,390	£10,650,000	91%	Ailagorwyd y Colisëwm fis Chwefror 2004, ac ymgwymerwyd â'r elfennau terfynol pan roedd ar gau yn ystod yr haf 2004. Mae'r gwaith cyfalaf bellach wedi'i gwblhau ar y safle ac yn aros am dynnu'r arian terfynol i lawr.
Roundhay Park, Leeds	£8,195,174	£6,111,000	74%	Yr holl waith tirlunio ac adeiladu wedi'i gwblhau, ac eithrio'r gwaith i Mansion House. Dyddiad cwblhau terfynol Mai 2006.

28 Cynnydd ar Brosiectau

Royal Albert Hall Development, Llundain	£57,690,000	£20,180,000	100%	Y prosiect wedi'i gwblhau.
Royal Festival Hall Prosiect	£21,727,000	£19,176,000	0%	Cynllunio manwl ar gyfer y prosiect ar droed, ond nid yw'r cynllun cyfalaf wedi cychwyn hyd yma.
Royal Hall Harrogate	£8,000,000	£6,000,000	0%	Dyfarnwyd y grant fis Mawrth 2005. Y contract i'w arwyddo a'r prosiect i'w ddechrau.
Rural History Centre, Reading	£10,485,500	£5,170,000	80%	Gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Bwriedir cynnal agoriad meddal yr ardal arddangos fis Gorffennaf 2005. Disgwylir cwblhau'r gwaith terfynol ddiwedd 2005.
Saltwell Park, Gateshead	£9,300,000	£6,949,000	95%	Y prosiect bron iawn â'i gwblhau. Bwriedir cynnal agoriad ffurfiol yn ystod yr haf 2005.
Sheffield Botanical Gardens	£6,751,015	£5,063,800	90%	Y gwaith bron iawn â'i gwblhau a hynny o fewn y gyllideb. Rhagwelir y bydd yr arian terfynol yn cael ei dynnu i lawr fis Tachwedd 2005.
Sheffield City Museum and Mappin Art Gallery	£16,800,000	£12,600,000	44%	Y gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo. Mae'r deunyddiau arddangos yn cael eu cynhyrchu i ffwrdd o'r safle a bwriedir eu gosod fis Tachwedd 2005. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar ddechrau 2006.
ss Great Britain – Securing the Heritage Core	£11,224,530	£8,473,300	91%	Y prosiect yn agos i gael ei gwblhau. Bwriedir cynnal yr agoriad swyddogol fis Gorffennaf 2005.
St George's Hall, Lerpwl	£17,916,264	£14,598,000	78%	Y cyfnod cyntaf bellach wedi'i gwblhau. Dyfarnwyd cynnydd o £2 filiwn yn y grant fis Ionawr 2005 i gwblhau'r gwaith o'r cyfnod cyntaf oedd wedi'i ohirio. Rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau fis Mawrth 2007.
St Martin-in-the-Fields, Llundain	£34,099,000	£13,377,000	0%	Dyfarnwyd y grant fis Rhagfyr 2004. Dechreuwyd rhywfaint o waith galluogi ond nid yw'r brif raglen gyfalaf wedi cychwyn.
Stanley Mills, Perthshire, Yr Alban	£6,813,000	£5,127,000	55%	Y gwaith cyfalaf yn parhau, a chytunwyd ar rai newidiadau. Rhagwelir cwblhau'r gwaith fis Rhagfyr 2005.
Time and Space: Developing the Royal Observatory, Greenwich	£9,054,310	£6,789,000	0%	Dechreuwyd y gwaith ar y safle fis Chwefror 2005.
Tower Environs, Llundain	£15,154,808	£5,533,000	89%	Mae'r prosiect cyfalaf wedi'i gwblhau ac mae mân rwystrau terfynol yn cael eu datrys ar hyn o bryd. Yn aros y cais am y grant terfynol.
Unlocking the Archives, y Gymdeithas Ddaeryddol Frenhinol	£6,718,083	£5,040,000	98%	Y prosiect wedi'i gwblhau. Y cyfrifon terfynol yn cael eu trefnu a disgwylir y bydd y grant terfynol yn cael ei dynnu i lawr ddiwedd mis Mehefin 2005.
Wentworth Castle and Landscape of Stainborough Park	£13,809,526	£10,357,000	7%	Ebrill 2005 yw'r dyddiad dychwelyd tendrau, yna bydd y prosiect yn cychwyn.
Woodhorn Colliery: Experience Northumberland at Woodhorn	£15,015,634	£10,000,000	5%	Dechreuwyd y prif waith contract ar y safle fis Rhagfyr 2004. Bwriedir ei gwblhau fis Ebrill 2006.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri



G R A N T I A U A D D Y F A R N W Y D + £ 1 0 0 , 0 0 0

30 Grantiau o £100,000 a mwy a ddyfarnwyd rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005

All Saints Church
£140,000.00

Amgueddfa Gymunedol Croniclau Rhaeadr a'r Cylch a Phrosiect Allgymorth
£444,500.00

Ancoats Building Preservation Trust Ltd
Skills, Schools and Stories (yn Murrays' Mills, Ancoats, Manceinion)
£106,500.00

Arts and Leisure Department Leicester City Council
Prosiect Adnewyddu Mynwent Welford Road
£759,500.00

Arun District Council
Bognor Regis, Hotham Park
£147,500.00

Ashfield District Council
Prosiect Adnewyddu Ystafelloedd Teversal Manor
£156,000.00

Ashmolean Museum
Ashmolean Plan
£907,500.00

Ashmolean Plan
£15,000,000.00

Assemblies of the First Born
£252,000.00

Assemblies of the First Born Church
£176,000.00

At Close Quarters
£8,551,000.00

Avon Wildlife Trust
Gwarchodfa Natur Folly Farm
£2,567,000.00

Bahamas Locomotive Society Ltd
Steam Locomotive – LNWR 'Coal Tank' Rhif 1054
£154,000.00

Ballymoney Museum
£288,500.00

Bank Hall
£1,579,000.00

Barnsley Metropolitan Borough Council
In Touch: Access and Lifelong Learning at Cannon Hall
£254,000.00

Bath Place Community Venture
Prosiect Archfau Cymunedol Bath Place
£152,000.00

Bennachie Centre Trust
Prosiect Bennachie
£639,000.00

Berkshire, Buckinghamshire & Oxfordshire Wildlife Trust
Caffael Woodlands Farm
£233,500.00

Birmingham City Archives
Connecting Histories
£821,500.00

Blackpool Borough Council
Stanley Park, Blackpool
£3,780,000.00

Bluebell Railway – Operation Undercover (Cyfnod 3)
£2,875,000.00

Bognor Regis, Hotham Park
£1,548,000.00

Boomerang Kids
Boomerang Kids Club
£319,000.00

Borough of Barrow-in-Furness Council
Barrow Public Park
£248,000.00

Borough of Poole
Renascent Waterfront Museum
£750,000.00

Botolph's Barn Committee
Botolph's Barn
£175,500.00

Bridge Street No 2 – Lisburn THI
£955,000.00

Brighton & Hove Hebrew Congregation
£154,352.40

Bristol Museums and Art Gallery
National Gallery Touring Partnership (2006 i 2008)
£396,000.00

British Aviation Preservation Council
National Aviation Heritage Skills Initiative
£569,500.00

British Library
British Library Centre for Conservation: Codi Ymwybyddiaeth o Gadwraeth a Hyfforddiant Gwella
£999,500.00

British Motor Industry Heritage Trust (BMIHT)
'Going Places': Dod ag archfau preifat diwydiant modur Prydain (Casgliad Baldwin) o fewn cyrraedd y cyhoedd a darparu mynediad i bawb.
£569,000.00

British Museum
Caffael y Coenwulf Coin
£175,000.00

British Waterways
Droitwich Barge and Junction Canals – Adnewyddu
£4,658,000.00

British Waterways
Foxton Locks
£1,782,000.00

British Waterways
Adfywio'r Cotswold Canals
£411,000.00

British Waterways Midlands & South West Region
Adnewyddu Stourport Canal Basins
£1,678,000.00

Broad Street/Stafford Street THI
£960,000.00

Brunel 200: 200th anniversary of the birth of Isambard Kingdom Brunel
£980,000.00

Buckinghamshire County Council
Wexham, Buckinghamshire: Langley Park Estate
£218,000.00

Bude Canal Regeneration
£1,600,000.00

Burghley House Preservation Trust Ltd
Burghley Brewhouse
£983,500.00

Burslem THI Cynllun 2
£970,000.00

Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts
£662,500.00

Cambridgeshire County Council ar ran y Biodiversity Partnership for Cambridgeshire and Peterborough
Sharing Information About Wildlife
£224,000.00

Cannock Chase Council
Chase Heritage Trail, Cannock, Staffs
£946,000.00

Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr – Menter Treftadaeth Trefluniau
£910,000.00

Canolfan Ysgrifenydd Newydd
Cynllun Datblygu Tŷ Newydd
£250,000.00

Carving a Foundation for the Isle of Purbeck
£1,443,000.00

Catton Park
£578,000.00

Catton Park Trust Ltd
Catton Park
£128,000.00

Causeway Museum Service
Allgymorth Causeway Museum Service
£150,500.00

Cefn Mawr – Menter Treftadaeth Treflun
£1,000,000.00

Central Barrow Gateway
£1,000,000.00

Central St Leonards, THI 2004-07
£850,000.00

Charlecote PCC
£126,273.00

Cheltenham Borough Council
Montpellier Gardens, Cheltenham
£722,000.00

Cheshire County Council
Cheshire Tithe Map Digital Archive
£159,000.00

Chorley Borough Council
Astley Park, Chorley
£2,004,000.00

Christian Life Church Trust
£160,000.00

Church of St Barnabas
£273,334.80

Church of St Lawrence
£155,000.00

City of Lincoln Council
Heritage and Culture: Making
the Connection – Menter
Treftadaeth Treflun Lincoln
£1,000,000.00

Clavell Tower Restoration
£436,700.00

**Cleveland Buildings
Preservation Trust Limited**
Adnewyddu Cloc y Dref,
Redcar
£148,500.00

Congleton Museum Trust
Congleton Museum Trust
£126,000.00

**Conway Mill Preservation
Trust Ltd**
Conway Mill
£950,000.00

Cornish Maritime Trust
Adnewyddu Barnabas
£159,600.00

Cornwall County Council
Prosiect Treftadaeth Mineral
Tramways
£1,602,000.00

Corringham PCC
£100,579.50

Council for National Parks
The Mosaic Partnership
£635,000.00

Coupar Angus THI
£880,000.00

Coventry City Council
Coventry History Centre &
Galleries
£1,912,000.00

Coventry City Council
Far Gosford Street – Menter
Treftadaeth Trefluniau
£1,700,000.00

Craigsbank Parish Church
£145,000.00

Crescent Arts Centre
£319,000.00

**Creswell Crags Museum &
Archaeology Park**
£4,234,000.00

Creswell Heritage Trust
Creswell Crags Museum &
Archaeology Park
£192,000.00

**Crewe & Nantwich
Borough Council**
Adnewyddu Queens Park
£2,775,000.00

Cumbria Wildlife Trust
Cumbria's Wealth of Wildlife
£628,500.00

Cumbria Wildlife Trust
Grounds for Wildlife
£115,500.00

Cutty Sark Conservation
£11,750,000.00

Cutty Sark Trust
Cadwraeth Cutty Sark
£1,251,000.00

Cyfeillion Cadw Tremadog
Hen Eglwys y Santes Fair,
Tremadog
£755,500.00

Cyngor Plwyf Llangybi
Eglwys Sant Cybi
£100,000.00

Cyngor Sir Ceredigion
Gofalu am Aberteifi (Menter
Treftadaeth Treflun Aberteifi)
£735,000.00

Cyrenians Cymru
Canolfan Adnoddau Cymunedol
Sant Mathew
£290,000.00

**Derbyshire College Estates
Limited**
Devonshire Royal Hospital
£1,228,000.00

Diocese of Durham
£137,000.00

Dorchester Town Council
Dorchester Borough Gardens
£950,500.00

Dorset County Museum
Jurassic Coast Gallery
£336,500.00

**Dumfries and Galloway
Council**
Menter Treftadaeth Treflun
Annan
£578,500.00

**Dunster Tithe Barn
Community Hall**
Dunster Tithe Barn –
Adnewyddu, Cadwraeth a
Defnydd Cymunedol
£287,500.00

**Durham County Council ar
ran North Pennines AONB
Partnership**
Down to Earth
£416,000.00

East Coast Sail Trust
Thalatta Centenary 2006
£527,500.00

**Eastbourne Borough
Council**
Towner Art Gallery – Adleoli
£1,960,000.00

**Eden Court Theatre and
Cinema**
Atgyweiriad a Chadwraeth
Bishop's Palace
£793,000.00

Eden Rivers Trust
Restoring Eden
£985,000.00

Eglwys Gadeiriol Bangor
Adnewyddu Eglwys Gadeiriol
Bangor
£515,000.00

**Elmton and Creswell Parish
Council**
Creswell Social Centre
£262,000.00

**Environmental Advisory
Service**
Merseyside Biobank
£546,000.00

Eric Lidell Centre
The Eric Liddell Centre
£209,000.00

Exeter City Council
Datblygiad Royal Albert
Memorial Museum and Art
Gallery
£538,000.00

Falkirk Council
Menter Treftadaeth Treflun
Bo'ness
£1,300,000.00

Forest Enterprise (Lloegr)
Neroche o fewn Blackdown
Hills AONB
£118,000.00

Friar Street Museum
Resource and Learning Centre
– Cyfnod 3
£1,223,000.00

Friends of St Anne's Hall
Adnewyddu St Anne's Hall
£137,000.00

**Friends of the Western
Buddhist Order**
£156,000.00

**Fusion (Southwark
Community Leisure Ltd)**
Brockwell Park Lido
£500,000.00

Gallery Oldham
Following the Banner
£140,000.00

Galley Common PCC
£392,000.00

Geffrye Museum Trust
At Home 1600-1800
£412,000.00

**Glasgow Building
Preservation Trust**
Adnewyddu Bloc a Safle
Castlemilk at Ddefnydd
Cymunedol
£332,000.00

Glasgow City Council
Prynnu casgliad preifat o
gelfwaith gwreiddiol, ac archifau
cysylltiedig, gan yr arlunydd a'r
darlunydd Jessie Marion King
(1875-1949), ar gyfer Glasgow
Museums and Art Galleries
£130,000.00

Glasgow City Council
Museum of Transport Riverside
Museum a Glasgow Museums
Resource Centre (Cyfnod 2)
£990,000.00

Glossopdale THI
£1,300,000.00

**Gorsaf ac Adeilad
Amgueddfa Newydd i
Reilffordd Fach Y Rhyf**
£484,500.00

**Gracehill Old School
Restoration**
£1,125,000.00

Great North Museum
£8,750,000.00

GreenSpace
Heritage Parks: Rhaglen
Digwyddiadau Cymunedol
£962,000.00

**Groundwork Camden &
Islington**
Up to No Good?
£134,500.00

**Hackney Historic Buildings
Trust**
St. Augustine's Tower, Hackney
£231,000.00

Hainford PCC
£102,000.00

Halton Borough Council
Victoria Park, Widnes
£1,682,000.00

Halton Borough Council
Wild about Halton
£464,000.00

32 Grantiau o £100,000 a mwy a ddyfarnwyd rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005

Harrogate Borough Council

Adnewyddu'r Royal Hall,
Harrogate
£6,000,000.00

Herbert Art Gallery and Museum – Cyfnod 3

£2,875,000.00

Herefordshire Community Commons

£460,500.00

Herefordshire Nature Trust

Herefordshire Community
Commons
£123,000.00

Heritage Conservation Group, Kent County Council

Exploring Kent's Past
£177,000.00

Heritage Trust for the North West

Bank Hall
£116,000.00

Highfield Trinity Anglican & Methodist Church

£180,000.00

Hill Close Gardens Trust Ltd

Victorian Detached Pleasure
Gardens: Hill Close Gardens,
Warwick
£906,500.00

Hindley Town Centre

Adferiad
£315,000.00

Historic Chapels Trust

Eglwys y Methodistiaid
Bethesda, Stoke on Trent
£265,500.00

Holy Innocents PCC

£148,000.00

Holy Trinity

£157,000.00

Holy Trinity Church

£152,000.00

Holy Trinity Church

£157,000.00

Ipswich Borough Council

Adnewyddu Christchurch Park
– Ipswich
£3,211,000.00

Ipswich Caribbean Association

Ipswich Caribbean Experience
£184,000.00

Kent County Council

Sevenoaks Kaleidoscope –
aifodelu'r Amgueddfa
£995,000.00

Kerridge Ridge & Ingersley Vale

£727,000.00

Kerrier District Council

Wheal Peevor
£407,500.00

Kingston upon Hull City Council

Adnewyddu East Park, Kingston
upon Hull
£995,300.00

Kirkconnel Parish Heritage Society

Kirkconnel Set in Stone
£132,000.00

Lagan Valley LPS

£1,529,000.00

Launceston THI

£525,000.00

Learning Through Landscapes

Hearts and Minds
£515,500.00

Leicestershire County Council

The Revitalisation of Bosworth
Battlefield – Cyfnodau II a III
£990,000.00

Lincolnshire County Council

Lincolnshire Limewoods
£700,000.00

Little Bolton THI

£795,000.00

Liverpool City Council

Menter Treftadaeth Treflun Safle
Treftadaeth y Byd yn Lerpwl
£1,800,000.00

Liverpool City Council

Sefton Park: Adnewyddu a
Gwella
£224,000.00

Liverpool City Council/St Georges Charitable Trust

St George's Hall, Lerpwl –
Datblygiad
£2,000,000.00

Llanymddyfri a Llangadog – Menter Treftadaeth Treflun, cyfnod II

£770,000.00

London Borough of Bexley

Adnewyddu Hanesyddol
Danson Park
£1,195,000.00

London Borough of Camden

Camden Archaeological
Workshops
£205,000.00

London Borough of Croydon

Museum of Croydon
£933,500.00

London Borough of Hackney

Adnewyddu Gerddi Mynwent
St John at Hackney
£1,790,000.00

London Borough of Harrow

Adnewyddu Hanesyddol
Canons Park
£917,700.00

London Borough of Hillingdon

Heritage Builds Bridges
£247,500.00

London Borough of Lambeth

Bandstand Clapham Common
£898,500.00

London Borough of Redbridge

Valentines Park – Adnewyddu'r
parc
£3,023,000.00

London Borough of Richmond upon Thames

Strategaeth Tirlun Thames
'Arcadia in the City'
£1,778,000.00

London Borough of Southwark

Joy of Dulwich Park
£3,893,000.00

London Borough of Tower Hamlets

St. George yn yr East Church
Gardens
£1,248,700.00

London's Transport Museum

Covent Garden
£8,608,000.00

Lurgan Forward

Lurgan THI
£699,000.00

Manchester City Council

Dig Manchester
£431,500.00

March Civic Trust

March Town Hall: Cyfleusterau
Cymunedol Aml Bwrpas
£187,000.00

Maryport Townscape

Cynllun Menter Treftadaeth
£1,100,000.00

Medway Gap 'Valley of Vision' Landscape Partnership

£1,814,000.00

Melcombe Regis Townscape Renewal

£565,000.00

Merchant City THI Cyfnod 2

£820,000.00

Middleton Railway Trust Limited

The Middleton Railway
Collection, Leeds
£737,500.00

Mitcheldean PCC

£105,901.95

Mo Building – Sheringham Museum

£692,500.00

Momentum Arts Untold Stories: BME History and Heritage

£265,500.00

Moyle District Council

Menter Treftadaeth Treflun
Bushmills
£440,000.00

Museum of Childhood at Bethnal Green

Ailddatblygu'r Museum of
Childhood yn Bethnal Green
(Cyfnod 2)
£3,500,000.00

Museum of Childhood Rejuvenation

£1,593,000.00

Museum of London

Rhaglen Gynhwysiant Museum
of London
£160,500.00

Museum of London

Caffael 'Eastward Ho!' a 'Home
Again'
£713,000.00

National Maritime Museum/Cornwall Maritime Museum

Falmouth Maritime Initiative
£1,145,713.00

National Museum of Photography, Film & Television

Experience TV, Bradford
£400,000.00

National Museum of Science and Industry

Cyfleuster Mynediad i
Gasgliadau
£358,000.00

National Museums and Galleries of Northern Ireland

Agor Ulster Museum
£186,000.00

National Trust (Wessex Region)

Discovering the Wilderness –
Prior Park, Bath
£483,000.00

National Wildflower Centre

Wildflower Heroes (Planhigion
a Phobl)
£385,000.00

Natural History Museum

Darwin Centre
£5,000,000.00

Neroche o fewn Blackdown Hills AONB

£1,882,000.00

New Hostry

£2,119,000.00

Newcastle City Council

Down Your Way?
£635,000.00

Newham – Central Park

£1,902,000.00

Norfolk County Council Of Giants, Wisewomen, Ploughboys and Kings

£129,500.00

Norfolk Museums and Archaeology Service

The Norfolk Heritage Explorer
£203,000.00

North East Theatre Trust Ltd

Live Theatre – the Ideas
Factory – 29 Broad Chare
£550,000.00

North Lanarkshire Council/Community Services

Summerlee Heritage Park
£119,000.00

North Pennines Heritage Trust

Adnewyddu Traphont Alston
Arches
£328,000.00

North Tyneside Council

Dehongli Waggonways
Network
£100,000.00

North York Moors National Park Authority

Heritage Connections – New
Audiences
£298,500.00

Northampton Theatres Trust

Adnewyddu Royal Theatre
Northampton
£114,000.00

Northampton Theatres Trust

Adnewyddu Royal Theatre
Northampton
£1,840,000.00

Northumberland National Park Authority

Northumberland National Park
Authority – Traditional
Boundaries – Traditional Skills
£989,000.00

Norton Priory Museum Trust Ltd

HA2 (Heritage Access,
Halton Area)
£231,000.00

Norwich Cathedral

New Hostry
£184,000.00

Nottingham City Council

Dadsiltio Holme Pit
£225,500.00

Opening up the Ulster Museum

£4,527,000.00

Orleans House Gallery

Orleans House Gallery:
Datblygu'r Ganolfan Addysg
£936,000.00

Our Lady of Reconciliation de la Salette

£118,000.00

Oxford Preservation Trust

Caffael Chilswell Fields, Boars
Hill, Oxford
£120,000.00

Oxford Preservation Trust (OPT)

Oxford Castle Yard
£3,708,000.00

Parc Brynmill, Abertawe

£1,054,000.00

Parish Church of St James Garlickhythe

St James Garlickhythe, EC4:
Adnewyddu'r Organ
£226,500.00

Parochial Church Council

£103,000.00

Parochial Church Council of All Saints' Stand

£107,203.20

PCC

£144,827.40

PCC

£135,056.00

PCC of St George's Church & St John the Evangelist

Adnewyddu St George's
Bloomsbury
£462,500.00

PCC of St Mary West Twyford

£146,000.00

Penwith District Council

Leach Pottery (St Ives)
£610,000.00

Perth & Kinross Countryside Trust

Perthshire Big Tree Country
Heritage & Access
£526,500.00

Plymouth Hospitals NHS Trust

Learning from the Past to
Prepare for the Future
£196,500.00

Portsmouth City Council

Portsmouth's Voices: Oral
History in Portsmouth
£223,500.00

Presbyterian (Unitarian) Chapel

£108,000.00

Purbeck District Council

Carving a Foundation for the
Isle of Purbeck
£126,300.00

Reading Borough Council

Outside the Box
£957,500.00

Redditch Borough Council

Adnewyddu Palace Theatre
£920,500.00

Redevelopment of the Playhouse

£1,120,000.00

Reigate & Banstead Borough Council

Reigate Priory Park
£306,500.00

Reigate Priory Park

£4,155,500.00

Rejuvenating Utttoxeter

Menter Treftadaeth Treflun
Canol y Dref
£400,000.00

Renaissance of the Cotswold Canals

£10,924,000.00

Richmond Station Regeneration

£690,000.00

Ripon – Hackfall

Landscape

£872,000.00

River and Rowing Museum Foundation

Henley River and Rowing
Museum Education Centre
£683,000.00

Riverside Museum and Glasgow Museums

Canolfan Adnoddau (Cyfnod 2)
£15,000,000.00

Roman Catholic Parish of Our Lady of Fatima

£128,000.00

Rotunda Museum, Scarborough

£1,863,000.00

Royal Air Force Museum

Divided World – Connected
World
£4,900,000.00

Royal Albert Memorial Museum and Art Gallery Development

£8,452,000.00

Royal Borough of Kensington and Chelsea

Drawing Inspiration: A New
Future for the Leighton House
Drawings Collection
£215,500.00

Royal College of Organists

Ailwampio Curzon Street
£2,605,900.00

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Scotland

Sir Basil Spence Archive
£975,000.00

Royal National Lifeboat Institution (RNLI)

Ailddatblygu ac Ailddehongli
RNLI Grace Darling Museum
£997,500.00

Royal Naval Museum

'Sea Your History'
£664,000.00

Royal Observatory Greenwich

Time and Space – Datblygu'r
Royal Observatory Greenwich
£6,789,000.00

Royal Society for the Protection of Birds
Caffael tir i ehangu Gwarchodfa Natur Otmoor
£217,000.00

Royal Society for the Protection of Birds
Gwarchodfa Natur Frampton Marsh
£453,500.00

RVH – Restoration of Historic Areas
£600,000.00

Scarborough Borough Council
Rotunda Museum, Scarborough
£120,000.00

